


Hanes



HANES

Hanes



Rhagair i Athrawon

Lluniwyd adran Hanes y blygell hon i gwrdd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac i alluogi disgyblion i gyrraedd y Targedau Cyrhaeddiad uchaf.

Mae modd defnyddio'r llinell amser gyda phlant o bob oedran er mwyn gosod y digwyddiadau hanesyddol o fewn eu cyd-destun. Ar gyfer athrawon cynradd, argraffwyd lluniau'r llinell amser ar dudalennau gwahanol er mwyn iddynt allu eu defnyddio ar gyfer gwneud gweithgareddau syml o osod digwyddiadau mewn trefn amser, gyda'r plant yn llunio eu llinellau amser eu hunain. (mae'r holl luniau ar y CD sydd ynghlwm).

Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae hanes llafar y bywyd ar Fynydd Helygain yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn gweddu'n dda gyda 'Bywyd yng Nghymru a Phrydain Cyfoes' yn ogystal â 'Pwnc Hanesyddol mewn Cyd-destun Lleol'. Mae adran Moel y Gaer yn cynnig deunydd ar gyfer astudiaethau sy'n ymwneud â 'Bywyd yn y Gymru Gynnar'.

Yn amlwg, yng Nghyfnod Allweddol 2 bydd angen Gwybodaeth a Dealltwriaeth o Hanes cyn y gellir canolbwyntio ar bobl leol yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn sicr bydd y prosiect 'Astudiaethau Celtaidd' a'r 'Hanes Llafar' yn caniatáu i ddisgyblion ymdrin â 'Dehongliadau Hanes', gwneud 'Archwiliad Hanesyddol' a chyflwyno'r darganfyddiadau i ddangos y gallu i 'Drefnu a Chyfleu'u deunydd'.


Mae'r gwaith Cyfnod Allweddol 3 ar Fynydd Helygain a'r Chwyldro Diwydiannol yn cynnig cyfleoedd cyffelyb iddynt ddangos eu sgiliau hanes. Mae'n bwysig pwysleisio y dylai'r unedau hyn fod yn rhan o astudiaeth gyffredinol o'r Chwyldro Diwydiannol. Dylid cymharu â gwrthgyferbynnu'r profiad yn Helygain gydag enghreifftiau eraill o Gymru ac o Brydain gyfan. Er mwyn cyrraedd y targedau cyrhaeddiad uchaf bydd angen i ddisgyblion greu'r cysylltiadau hyn rhwng ardaloedd gwahanol y wlad yn ystod y Chwyldro Diwydiannol. Ac yn wir, efallai y bydd angen iddynt gyfeirio hefyd at y cyfnod cyn-ddiwydiannol ac efallai at y sefyllfa fel y mae hi heddiw.

Lluniwyd y tasgau er mwyn i'r disgyblion allu dehongli'r gorffennol a gwerthuso'u dehongliadau mewn ffyrdd gwahanol. Hefyd, mae'r tasgau'n cynnig cyfle i'r disgyblion ysgrifennu'n estynedig. Ffurfiwyd arddull y tasgau i hyrwyddo dealltwriaeth gyffredinol drwy ddefnyddio cwestiwn allweddol. Ar ddiwedd pob uned byddai'n werth dychwelyd at y cwestiwn allweddol er mwyn mesur dealltwriaeth y disgybl.






Llinell amser




Lluniau llinell amser

(ar gael ar CD hefyd)

Dyn oes y Cerrig



Rhyfelwr Oes yr Haearn



Gwraig Oes yr Haearn






Milwr Rhufeinig



Mwynwr o'r Canol Oesoedd



Teulu o fwynwyr yn cyrraedd o Swydd Derby




Mwynwr Oes Fictoria




Castell Helygain



Odynnau Calch Waen Brodilas



Drilio ffordd o dan y mynydd yn y 1930au



Ffrâm weindio Pwll Pen-Y- Bryn (tynnwyd i lawr erbyn hyn)



Nodiadau cefndir i athrawon: Moel y Gaer a'r Celtiaid

Nid oes unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig ar gael sy'n rhoi gwybodaeth am y cyfnod cynhanes. Felly, creodd yr archeolegwyr ddarlun o'r gorffennol orau y gallant o'r dystiolaeth brin a adawyd ar ôl. Yr her o ran dysgu am y cyfnod hwn yw annog y plant i edrych ar y dystiolaeth a cheisio casglu ohoni gymaint o wybodaeth ag y gallant am fywyd yn ystod y cyfnodau cynnar. Ceisiwch bwysleisio iddynt nad oes dim o gwbl yn bendant. Mae hyd yn oed yr archeolegwyr gorau yn parhau i geisio casglu gwybodaeth o'r dystiolaeth sydd ar gael.

Mae Moel y Gaer yn lle hawdd ei gyrraedd wrth gerdded o Rosesmôr. Efallai bydd modd ichi barcio yn y cilfannau yn Berth Ddu neu Ganolfan Gymdeithasol Rhosesmor. Mae'r rhagfuriau pridd, sydd wedi'u cadw'n dda, i'w gweld yn amlwg wrth y fynedfa ar yr ochr ddwyreiniol, felly mae'r ymweliad yn ddefnyddiol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 sy'n astudio'r Celtiaid.


Mae'n debyg mai'r bobl gynharaf i fyw ar ben Moel y Gaer oedd pobl Oes y Cerrig, adeiladasant dai pren hir dros bum mil o flynyddoedd yn ôl. (Y dystiolaeth yw'r tyllau pyst a ffos llawn cerrig, pennau saethau carreg fflint a darnau o grochenwaith).

Mae'r garnedd Oes yr Efydd, sydd ar gopa Moel y Gaer, a darganfyddiadau o Oes yr Efydd yn lleol (yn arbennig mantell aur yr Wyddgrug) yn dangos fod pobl yn byw yn yr ardal hon yn ystod Yr Oes Efydd.

Ond olion Oes yr Haearn sydd amlycaf i ymwelwyr heddiw. Mae'r bryngaerau-yr aneddiadau a godwyd ar ben y bryniau gyda'u hamddiffynfeydd o bonciau uchel o bridd a'u ffosydd dyfnion-yn nodweddiad amlwg iawn yng Ngogledd Cymru. Saif Moel y Gaer ar wahân i'r gadwyn o fryn gaerau sydd ar hyd crib Bryniau Clwyd. O'r gaer hon ceir golygfeydd gwych ar draws aber yr Afon Ddyfrdwy, ac efallai i hyn fod yn elfen bwysig wrth leoli'r gaer.

Bu cloddio archeolegol manwl mewn rhai rhannau o Foel y Gaer cyn adeiladu cronfa ddŵr ar ran o ben y bryn. Yn ystod y cloddio hwn gwelwyd fod yma gyfres o anheddau. Tai crynion oeddynt yn bennaf a adeiladwyd o fewn y rhagfuriau pridd. Hefyd, fe ddarganfuwyd olion adeiladau hirsgwar mwy diweddar, a thybir mai ysguboriau grawn oedd y rhain, oherwydd darganfuwyd emer a mathau eraill o had yn ymyl Dinorben gerllaw. Awgryma hyn fod ffarmio âr yn digwydd yma. Mae'r tyllau pyst a dorwyd i mewn i'r isbridd yn dystiolaeth amlwg o beth oedd siâp a nifer yr adeiladau.


Ychydig iawn o arteffactau a ddarganfuwyd ar Foel y Gaer, am fod yr isbridd yn asidaidd dros ben a byddai unrhyw waith metel wedi toddi'n araf. Crochenwaith a cherrig yn unig a barhaodd heb fraenu. Daethpwyd o hyd i ddarnau o grochenwaith ac offer cerrig, fel pwysau gwŷdd a cherrig ffyn taflu. Hefyd roedd yma gerrig mwy gydag olion llosgi arnynt, efallai mai'r rhain oedd cerrig eu haelwydydd. Yn yr ymarferion nesaf defnyddiwyd eitemau a ddarganfuwyd drwy ogledd – ddwyrain Cymru er mwyn rhoi darlun mwy gorffenedig.



Rhagfuriau Moel y Gaer, fel yr oeddynt. Roedd ffens palisâd o bren ar ben y bonc bridd.



Moel y Gaer-Ileoliad a mynediad





Pa fath o ddehongliad sydd gennym o'r Celtiaid?

(yn gysylltiedig â'r uned astudiaeth ACCAC 'Dehongli Hanes')

Defnyddiau a Ddarparwyd:

Model sy'n seiliedig ar ddarganfyddiadau Oes yr Haearn.

Disgrifiad gan archeolegydd blaenllaw sy'n gwneud casgliadau o'r darganfyddiadau.

Ffotograffau o'r Silures, sef grŵp o actorion sy'n ailberfformio Oes yr Haearn.


Dyma ddisgrifiad dychmygol o ymosodiad ar Moel y Gaer, Llanbedr - o anerchiad y llywydd gan Dr Gardner Willoughby a argraffwyd yn Archaeologia Cambrensis 1926.

*"Gadewch inni dychmygu ymosodiad ar fur de-orllewin y gaer hon. I ddechrau, byddai'r llu ymosodol yn rhuthro ar hyd y ffos fach rwystr ac ar y 'glacis', byddent yn cael eu hatal gan res gyn-
taf y cerrig pigog a osodwyd wysg eu hochrau. Yna am bellter o ryw bedwar deg pum troedfedd
neu fwy i fyny'r llethr 'glacis', dim ond yn araf byddent yn gallu ymlwybro dros y cerrig miniog
oedd yn ymwithio o'r ddaear ar y naill ochr a'r llall. Byddai'r cerrig hyn yn eu cleisio a'u
torri'n enbyd petaent yn syrthio arnynt neu'n cael eu taro i lawr arnynt gan y ffyn, y cerrig taflu
a'r taflegrau eraill oedd yn tywallt ar eu pennau o'r rhagfur uchod.*



*Byddai'r rhai a lwyddodd i oroesi'r profiad dychrynlyd hwn yn rhuthro unwaith eto i groesi'r ffos
nesaf a sgrialu i fyny'r darren serth oedd o'u blaenau. Byddai hyn yn anos fyth am fod yr hanner
isaf wedi'i orchuddio gan farian llithrig. Ar ôl cyrraedd tir cadarnach byddent yn rhuthro unwaith
eto er mwyn croesi'r ffos nesaf, ond byddai yma baratoadau anweledig ac erchyll ar eu cyfer;
roedd yma res saith troedfedd o stanciau cerrig ar waelod y ffos, ac ni fyddent yn gallu peidio
syrthio arnynt oherwydd nerth eu rhuthrad dros y clawdd diwethaf ac oherwydd pwysau'r dorf y
tu cefn iddynt.*

*Erbyn hyn byddai'r gawod taflegrau o'r rhagfuriau oddi uchod yn parhau. Hawdd fyddai
dychmygu mai ychydig yn unig o'r llu a ddechreuodd ar y rhuthr a fyddai'n gallu goroesi, dringo'r
clawdd olaf, croesi'r ffos olaf a chyrraedd godre'r rhagfur mawr o gerrig."*

Argraff artist o'r mynediad i Foel y Gaer



Tŷ Crwn, Moel y Gaer








Ysgubor Oes Yr Haearn
ddichonadwy











Moel y Gaer a'r Celtiaid

' Eu holion yn unig sy'n parhau i adrodd eu hanes'

Dyma rai o'r pethau a'r olion a gafwyd o gwmpas Moel y Gaer a'r ardal. Beth mae pob un yn awgrymu ichi am ffordd o fyw'r hen Geltaid?

Darganfyddiadau	Yn awgrymu?
Tarian (Diserth) D.S. Yn Llundain y cafwyd hon 	
Arfau gweithio o gerrig 	
Offer aelwyd haearn (Capel Garmon) 	
Pwysau gwŷdd 	
Melin law o garreg, a hadau 	



Darganfyddiadau	Yn awgrymu?
Darnau crochenwaith (llestr halen yw hwn) 	
Tlws (Diserth) Breichled (o rywle arall)  	
Tyllau pyst yn y ddaear 	
Cerrig taflu (dangosir y garreg mewn ffon daflu) 	
Bwyell efydd (Moel Arthur) 	
Mantell aur o Oes yr Efydd (Yr Wyddgrug) 	
Cleddyf (Ynys Môn) 	



Dychwelodd Ilwyth y Silwriaid!

a)



b)



c)



d)



e)



f)



g)





Gweithgaredd Hanes Llafar

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd roedd dau filwr wedi'u lleoli ar Fynydd Helygain i gael derbyn hyfforddiant mewn gyrru cerbydau fel tanciau a chlodwyr gynau Bren. Dyma rai atgofion lleol o gyfnod y rhyfel.

Llais Un:

Mae gen i atgofion am y milwyr oedd yn hyfforddi ar Fynydd Helygain. Roeddynt yn garedig dros ben i ni'r plant. Roeddwn yn byw ar ddogni ond roeddyn nhw'n rhoi eu marmaled a'u jam inni.

Llais Dau:

Roedd y milwyr yn codi'n calonnau yn ystod y rhyfel. Gwnaethon nhw goelcerth inni ar Dachwedd 5ed hyn yn oed, a gwahodd fy ffrindiau i gyd iddo.

Llais Tri:

Roedd fy chwaer yn arfer canlyn un o'r milwyr – roeddwn yn genfigennus ohonyn nhw ar gefn y beic modur ar y Mynydd.

Llais Pedwar:

Y rhan orau o'r rhyfel oedd cael mynd am reid ar y cerbydau gynau Bren. Unwaith fe ddaethon ni o hyd i fwledi a'u tanio drwy eu taflu i'r tân.

Llais Pump:

Roedd y rhyfel yn gyfnod brawychus dros ben i ni'r plant. Byddai'r awyrennau bomio o'r Almaen yn gollwng y bomiau ar Fynydd Helygain.

Llais Chwech:

Daeth fy nheulu o Lerpwl i fyw i fynydd Helygain yn ystod y rhyfel er mwyn bod yn ddiogel rhag y bomio. Faciwís roeddwn i. I ddechrau roeddwn ni'n byw mewn cwt syml o bren a thun. Cafodd Ila-wer o blant Lerpwl eu hanfon i Fynydd Helygain.

Llais Saith:

Mae pawb yn cofio milwr ifanc yn cael ei ladd drwy syrthio i bwll mwynloddio. Roedd hyn yn ofnadwy. Aeth ei gar ar ei union i lawr y siafft a chafwyd mo'i gorff am wythnosau.

Llais Wyth:

Y stori waethaf alla i adrodd ydy'r hanes am y milwr ifanc a syrthiodd i lawr y siafft. Roedd wedi bod yn gyrru bulldozer er mwyn llenwi tyllau pan sigodd y ddaear o dano fo. Aeth pawb i'w glad-dedigaeth.



Tasgau

1. Chwiliwch am ystyr y geiriau a danlinellwyd

2. Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau hyn i roi gwybodaeth inni am fywyd ar Fynydd Helygain yn ystod yr Ail Ryfel Byd? Meddyliwch am dair ffordd maent yn ddefnyddiol a thair ffordd nad ydynt yn ddefnyddiol.

Defnyddiol	Heb fod yn ddefnyddiol

3. Pa ffynonellau sy'n dweud yr un stori? Sut all hyn ddigwydd tybed?

4. Ewch ati i wneud gwaith hanes llafar eich hunan. Lluniwch y cwestiynau rydych chi am eu holi. Meddyliwch yn ofalus iawn am y bobl rydych chi am eu holi.

Nodiadau Cefndir I Athrawon ar Hanes Mwyngloddio



Cyflwyniad

Y diwydiant mwyngloddio a luniodd dirwedd a phobl Mynydd Helygain. Ar ôl parhau am 2000 o flynyddoedd daeth mwyngloddio i ben erbyn hyn, ac mae'r mwyafrif o olion oedd ar wyneb y ddaear wedi diflannu. Yr unig bethau sy'n aros yw'r dirwedd unigryw a berthyn i fwyngloddio, y twneli tawel sy'n ddwfn o dan yr wyneb a'r hanesion mae'r bobl yn eu hadrodd.

Mwyngloddio â nerth braich hyd at 1700

Y mwynwyr cynnar

Ffurfiwyd gwythien blwm drwy i ffawt neu hollt yng nghramen y ddaear gael ei mwyneiddio. Byddai nifer o wythiennau o'r fath i'w gweld yn amlwg ar y mynydd, roeddent yn edrych fel bandiau llwyd yn rhedeg dros y graig galch o'u cwmpas. Mae'n sicr y byddai'r mwyn meddal wedi tynnu sylw pobl ers yr hen oesoedd. Ond y farn yw mai'r bobl gyntaf erioed i gloddio am y plwm yng Ngogledd Cymru oedd y Rhufeiniaid oedd â buddiannau ym Mynydd Helygain ac yn ardal y Mwynglawdd. Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ynghylch faint o gloddio a wnaed yn ystod y cyfnodau hynny, efallai mai cloddio ychydig o fetrau o dan yr wyneb yn unig roeddent. Darganfuwyd gymaint o blwm nes bod rhaid pasio deddf i reoli'r cloddi .

Ar ôl i'r Rhufeiniaid adael Prydain tua 400 AD mae'n debyg mai ychydig iawn o fwyngloddio oedd yn digwydd am ryw 800 mlynedd, yna dechreuwyd eto yn ystod yr Oesoedd Canol pan aeth ffermwyr ati i fwyngloddio ar raddfa fechan i ychwanegu ychydig at eu hincwm. Roedd y rhain naill ai'n gweithio'r plwm o waelod yr hen weithfeydd Rhufeinig neu'n chwilio ar yr wyneb am wythiennau 'newydd' oedd heb eu darganfod. Wrth i'r gwythiennau gael eu gweithio'n ddyfnach daeth llifogydd yn broblem fawr a bu rhaid rhoi'r gorau i lawer o'r gwythiennau plwm. Yn wir, bu llifogydd yn broblem fawr am y rhan fwyaf o oes y diwydiant. Yn 1282 (ar ôl i'r Saeson orchfygu Tywysogion Cymru) daeth adfywiad i'r diwydiant am fod angen adeiladu nifer fawr o gestyll. Hefyd roedd angen trwsio llawer o eglwysi ac abatai gan ddefnyddio plwm ar y toi, a'r pibellau draenio. Yn 1296 gorchynnodd Edwart I i nifer fawr o fwynwyr Sir y Fflint fynd i weithio ym mwyngloddiau Devon.

Caib a Rhaw

Yr un mathau o offer a ddefnyddid i gloddio am fwynau o'r ddaear am filoedd o flynyddoedd. Dyma'r offer: caib, trosol, morthwyl, lletem, a rhaw. Gwaith hawdd oedd ceibio'r mwyn o'r wythien fel arfer. Byddai'r gwaith yn mynd rhagddo'n raddol hyd nes bu rhaid gyrru twnnel drwy'r creigiau oedd o amgylch. Ar fynydd Helygain y garreg galch (calchfaen) oedd y graig frodorol (a charreg siert yn ardal y gogledd ddwyrain). Roedd hon yn garreg galetach o lawer na'r mwyn oedd yn y wythien blwm ac felly roedd rhaid tanio. Pan roedd gwythien blwm yn cael ei cheibio o do'r twnnel gosodwyd cynfas ar y llawr i ddal y darnau o blwm oedd yn syrthio i lawr. Mae cynfas o 1883 yn dal yn ei lle mewn pwll yn ymyl Bryn Gwiog.



Tanio

Roedd rhaid defnyddio tân i gloddio twnnel drwy'r graig galed er mwyn chwilio am y mwyn plwm. Defnyddid y dull hwn o'r amseroedd cynnar hyd tua 1700 pan ddaeth powdr gwn i wneud y gwaith yn gynt. Roedd rhaid cynnau tan yn erbyn wyneb y graig, a byddai'r gwres a gynhyrchwyd yn hollti'r graig o amgylch ac yna roedd modd defnyddio caib i'w symud gyda llaw. Roedd y dull yn fwy effeithiol ar ôl taflu dŵr ar y graig boeth. Os oedd angen tynnu to'r twnnel byddai'n rhaid codi llwyfan allan o wely o gerrig a chyfeirio'r tân yn ôl yr angen.

Roedd yn bwysig defnyddio'r tanwydd poethaf, fel glo neu esgyrn ceffylau neu goed tân (Hooson 1747). Y tannau gyda chyflenwad da o aer oedd y rhai gorau. Roedd modd cael aer mewn rhai pyllau drwy adeiladu fflw ar lawr y twnnel. Yn arferol, gosodwyd y tân ar ddiwedd y dydd er mwyn iddo gael llosgi dros nos a'r bore wedyn byddai'r cerrig rhydd yn cael eu symud. Gwaith araf a llafurus iawn oedd hwn, ac roedd creu twnnel drwy symud rhyw ddau neu dri metr y mis yn beth arferol. Erbyn 1700 dechreuwyd defnyddio powdr gwn yn lle tannau yn y mwyafrif o weithfeydd mwyngloddio.

Siafftau a lefelau

Roedd y dulliau o fwyngloddio mwyn y plwm yn debyg ymhobman. I ddechrau, agorwyd siafftau ar i lawr ac o'r siafftau hyn byddid yn cloddio twnelau neu lefelau ar draws. Ar ôl dod o hyd i'r mwyn byddai'r cyfan yn cael ei symud cyn dal ati i greu mwy o lefelau. Mae llawer o'r gweithfeydd ar Fynydd Helygain yn un siafft yn unig, rhyw 10 metr o ddyfnder, gyda lefel fer oddi arni. Os na lwyddwyd i ddod o hyd i'r mwyn yna roedd y mwynwyr yn symud i chwilio amdano yn rhywle arall.

Codi'r mwyn plwm i'r wyneb

Yr arfer oedd rhoi'r mwyn plwm mewn bwcedi ac yna naill ai ei gludo i waelod y siafft agosaf neu ei godi ar gar llusg (fel yn Gogledd Hendre) a'i lusgo ar hyd llawr y twnnel gyda rhaffau. Byddai'r mwyn yn cael ei ddodi mewn bwcedi mawr a'i godi i'r wyneb gyda winsh a drowyd â llaw. Yn y siafftau dyfnaf adeiladwyd chwimsi ceffyl, drwm mawr a cheffyl yn ei droi oedd hwn. Wrth i'r mwyngloddiau ehangu gosodwyd rheiliau ar hyd y prif dwnelau a byddai'r mwyn yn cael ei gludo mewn wagenni gydag olwynion arnynt.

Pwmpio cynnar

Gwaith anodd dros ben oedd pwmpio'r dŵr o'r mwyngloddiau yn y blynyddoedd cynnar. Ar Fynydd Helygain roedd y rhan fwyaf o fwyngloddiau gwlyb yn dibynnu ar nerth y gwynt i yrru peiriannau oedd yn aneffeithiol a chyntefig. Yn Sir y Fflint defnyddiwyd pypiau 'clytau a chadwyni'; roedd y rhain yn gweithio drwy dynnu cadwyn fetel drwy foncyff pren gwag neu bibellau metal. Rhoddwyd peli o flew ceffyl ar hyd y gadwyn ac roedd y rhain yn gallu codi'r dŵr wrth i'r gadwyn gael ei thynnu drwy'r bibell. Defnyddiwyd y dull 'carpiu a chadwyni' yn Ewrop ers o leiaf ddwy ganrif, ond er hynny mae'n sicr mai bach iawn oedd eu heffaith ar y gwlybanaeth ac ar ddiwrnod gwyntog yn unig roeddynt yn gallu gweithio.



Deddfau hynafol ynglŷn â mwyngloddio

Tarodd y Pla Du yr ardal hon yn 1349 a bu farw chwarter y boblogaeth. Gwrthododd y dynion weithio yn y mwyngloddiau ac ni fu fawr o gloddio am fwyn. Er mwyn ceisio ysgogi cynhyrchu plwm fe ail-gyflwynwyd hen ddeddfau mwyngloddio i'r ardal yn 1352 gan Edward y Tywysog Du. Annelwig iawn yw cychwyn y deddfau hyn, ond efallai eu bod eisoes yn bodoli tua 1000AD.

Am nifer o flynyddoedd rheolwyd mwyngloddio cynnar gan y deddfau hyn, deddfau tebyg i'r rhai sy'n parhau yn Swydd Derby hyd heddiw. Roedd trefniadau llym yn rheoli'r diwydiant a lluniwyd 'Llys Barmoot', i drafod unrhyw gwynion. Meistr y Bar oedd yn llywydd arno.

Mae'r deddfau hyn ar gael mewn cofnod manwl a gedwir hyd heddiw yn y Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus. Dyma rai dyfyniadau ohonynt a droswyd o'r Ffrangeg Eingl-Normanidd ac a symleiddwyd:-

Os daw'r Meistr Bar o hyd i 'meer' nad yw ar waith dylai beri iddo gael ei farcio (torri arwydd) bob wythnos am dair wythnos yn ddilynol. Os nad yw'n weithredol ar yr ail ddiwrnod ymhên y tair wythnos yna bydd y mwynwr yn colli'r mwynglawdd i'r arglwydd (tirfeddiannwr).

Rhaid i'r Meistr Bar ddyrannu darn o dir i godi tŷ i bob mwynwr sy'n gweithio gwythien, a'r hawl i gymryd coed i drwsio'i dŷ neu ei ffens. Gall y mwynwr gymryd y coed sydd ei angen arno i weithio.

Ni raid i'r mwynwr dalu unrhyw drethi ond iddynt dalu 2d y flwyddyn i'r tirfeddiannwr. Mae hyn yn rhoi'r hawl i'r mwynwr roi ei anifeiliaid i bori ar eiddo'r tirfeddiannwr ac eithrio mewn parciau, caeau a heuwyd neu dir gwyllt a ddynodwyd.

Pe ceir unrhyw un yn euog o ladrata mwyn, bydd y ddirwy yn 25d am y drosedd gyntaf, a 50d am yr ail drosedd. Am y drydedd drosedd tyllir ei law drwy'r gledr gyda chylllell a'u hoelio i ddrwm y winsh hyd at garn y gyllell. Bydd yn aros yna hyd farwolaeth neu hyd oni ryddhao ei hunan, ac os bydd yn rhydd bydd yn colli unrhyw hawliau i'r mwynglawdd a'u 'meers'.

Rhan y Teulu Grosvenor

Yn anffodus ni pharhaodd yr hen ddeddfau mwyngloddio. Daeth Richard Grosvenor yn berchen ychydig o fwyngloddiau yn 1601 drwy ddal prydles tydor byr. Yna dechreuodd y teulu Grosvenor gael hawliau eraill i fwynau lleol. Yn 1614 cafodd Richard Grosvenor yr hawl oddi wrth y Goron a roddodd reolaeth iddo dros y mwyngloddiau. Roedd diddymu deddfau'r mwynwr yn 1623 yn weithred radical, ac achosodd lawer o wrthdaro ymhlith mwynwr Helygain oedd yn hawlio hawliau hanesyddol i gloddio am blwm. Bu achos llys a'r canlyniad oedd buddugoliaeth i'r teulu Grosvenor. Gan fod y deddfau mwyngloddio wedi'u diddymu roedd y teulu Grosvenor mewn sefyllfa i ddechrau rheoli'r diwydiant mewn ffordd fwy trefnus, ac yn raddol fe gododd y cynnyrch a'r elw hefyd. Eiddo'r teulu Grosvenor yw hawliau mwynau y rhan fwyaf o Fynydd Helygain hyd y dydd heddiw.

Mwyngloddio o 1700 hyd heddiw

Powdr Gwn

Dechrau defnyddio powdr gwn i ffrwydro tua 1680 oedd yr arloesi technolegol mawr cyntaf. Ac er i bowdr gwn gael ei ddefnyddio yn y mwyngloddiau tua 1680 aeth 50 mlynedd arall heibio cyn i'r



mwyafrif o fwyngloddiau ei ddefnyddio.

Y rheswm y cymerwyd cyhyd cyn defnyddio powdr gwn oedd nad oedd y dulliau'n ddiogel iawn i ddechrau. Lladdwyd a niweidiwyd nifer fawr o fwynwr cyn gwella'r dull yn ddigonol i'w dderbyn, ond ar ôl eu derbyn roedd modd creu twnelau mewn treian yr amser a gymerodd y dull tanio.

Byddai mwynwr plwm oedd yn gweithio i'r cwmni plwm yn talu am ei ganhwyllau gwêr a'i bowdr gwn ei hunan gan eu prynu o siop y cwmni. I ddechrau, y dull a ddefnyddiwyd oedd drilio twll gyda llaw drwy yrru dril dur i mewn gyda morthwyl, efallai byddai tua 3 troedfedd o hyd a bron fodfedd mewn diamedr. Gyda phob trawiad morthwyl byddai'r dril dur yn troi ychydig yn y twll cyn ei daro eto. Pan fyddai'r twll yn ddigon dwfn byddai'n cael ei lanhau gyda chrafwr metel hir a thenau. Tywalltwyd y powdr i'r twll gan adael tua threian ohono'n wag. Yna gwthiwyd ffiws yn ofalus i mewn i'r twll ac i mewn i'r powdr, gan adael cynffon yn hongian allan o'r twll. Yna rhoddwyd tywod yn y twll a'i wasgu i lawr. Gwnaed nifer o dyllau ar yr un pryd. Pan roedd popeth yn barod cyneuwyd y ffiwsiau a byddai'r dynion yn symud i le mwy diogel. Ac eithrio pan roedd digon o awyr yn y twnell efallai na allai'r dynion ddychwelyd tan y bore wedyn ar ôl i'r mwg gwenwynig glirio. Pan roedd hi'n ddiogel i ddychwelyd roedd y darnau craig yn cael eu rhawio i'r ceir llusg neu'r wagenni a'u cymryd i'r siafft agosaf ac i fyny i'r wyneb. Arferiad cyffredin iawn oedd defnyddio llwch plwm yn lle tywod a byddai'r llwch plwm yn yr awyr yn ychwanegu'n sylweddol at yr ystadegau o wenwyno drwy blwm.

Daeth y deimameit 'ffrwydro uchel' yn 1878. Roedd hwn yn fwy effeithiol o lawer ar gyfer gwneud twneli a daeth yr arfer o ddefnyddio powdr gwn i ben yn fuan iawn.

London Lead Company

Yn 1692 daeth y Teulu Grosvenor â'r dull o brydlesu oedd yn mynnu breindaliadau. O'r herwydd aeth y cynnyrch i lawr ac aeth y Teulu Grosvenor i chwilio am fuddsoddi y tu allan. Cymerodd dau Grynwr o Lundain brydlesi 21 mlynedd ar Long Rake ac Old Rake. Ffynnodd y fenter ac o fewn 3 blynedd bu iddynt fuddsoddi £5000 a daethant i fod yn The London Lead Company. Daethant â nifer o ddulliau technolegol arloesol hefyd. Erbyn 1709 roedd y cwmni hwn yn cynhyrchu 1000 o dunelli o fwynau bob blwyddyn; roedd hyn yn fwy na chyfanswm yr holl fwyngloddiau lleol eraill gyda'i gilydd. Trawsnewidiodd y cwmni'r mwyngloddiau o fod yn byllau bach i rai mawr a llewyrchus a reolwyd yn dda, gan baratoi'r ffordd i'r nifer fawr o gwmnïau a ddaeth ar eu holau. Gadawodd y cwmni'r ardal yn 1792 pan roedd prisiau'r mwyn ar i lawr.

Y Rhuthr am Blwm yn 1715

Yn 1715 darganfuwyd gwythien eithriadol o gyfoethog mewn cae i'r de-ddwyrain o Bentre Helygain oedd yn eiddo i George Wynne, Coedllai. Daeth â mwynwr o Swydd Derby i'r ardal. Oherwydd y darganfyddiad hwn fe dechreuodd y 'Rhuthr Plwm' yn yr ardal gan ddenu mwy o fwynwr o Swydd Derby; buddsoddwyr, rheolwyr, a mwynwr medrus a labrwr. Daeth enwau Swydd Derbyn fel Bagshaw, Ingleby, Harrison, Hooson ac Oldfield yn gyfarwydd iawn yn yr ardal. Rhoddwyd prydles i fwyngloddio ar diroedd Eglwys Helygain ac o dan y briffordd, gymaint oedd yr ysfa am elw.



Bu darganfyddiadau mawr eraill yn gymorth i sicrhau enw da i Fynydd Helygain fel yn Silver Rake yn 1750. Yn 1770 darganfuwyd mwyn cyfoethog ym Mhant y Pwll Dwr a chodwyd mwyn plwm oedd yn werth dros £1,000,000. Mewn mwynglawdd arall ym Mrynffordd yn 1774 gwnaed £100,000 mewn ychydig o flynyddoedd. Darganfyddiad mawr olaf y ganrif oedd yn Great Holway yn 1798 a fu'n dal i gynhyrchu llawer iawn o fwyn hyd 1825

Er bod pobl yn buddsoddi llawer gan obeithio gwneud elw mawr, methodd llawer i ddarganfod y cronfeydd cyfoethog. O'r herwydd, aeth nifer o ystadau'n fethdalwyr ac aeth rhai unigolion i 'garchar y dyledwyr'.

Creu Tirwedd

Yn arferol, grwpiau bach o ddynion gyda thrwyddedau blynyddol a elwir yn 'fargen' oedd yn cloddio. Roedd hyn yn eu hannog i roi cynnig ar chwilio'r mynydd am fwy o fwyn, a bu llawer o bobl leol yn gwneud hynny. Os roeddynt, drwy lwc, yn darganfod llawer iawn o fwyn yna roeddent naill ai'n gweithio'r wythien eu hunain neu'n gwerthu'r fargen i gwmni mwyngloddio. O'r herwydd 'siafftau arbrofol' yw nifer o'r siafftau sy'n frith ar y mynydd, gwaith dau neu dri o fwynwyr. Llwyddodd rhai o'r mwynwyr i wneud ffortiwn fach ond roedd y mwyafrif yn ei chael hi'n anodd byw. Y cwmnïau mwy a ddechreuodd reoli'r diwydiant, yn hyderus o'u gallu i gynllunio ac i fuddsoddi mewn technoleg newydd.

Er bod rhai hen siafftau hyd at 200 metr o ddyfnder, tua 10 metr yw dyfnder y mwyafrif gydag efallai un lefel fer oddi arni. Methodd llawer â dod o hyd i'r plwm, a gadawyd y siafftau. Ceisiodd y Teulu Grosvenor sicrhau bod yr hen siafftau'n cael eu cau, ond ni fu hyn yn llwyddiannus a bu ugeiniau o siafftau peryglus ar agor am nifer fawr o flynyddoedd. Caewyd y rhan fwyaf o'r siafftau hyn yn y 1980au, ac erbyn hyn tua dwsin yn unig sy'n dal ar agor.

Plwm, arian, sinc a chalchfaen

Mwyn plwm (galena) oedd y prif fwyn a gloddiwyd yn ystod y rhan fwyaf o hanes y mynydd. Fe'i defnyddid i wneud bwledi, ar doi, pibellau, yn ychwanegiad at baent, colur i'r wyneb, i gannu bara, mewn batris etc. Saith ganrif yn ôl gwnaed padelli heli o blwm i'w defnyddio yn y mwyngloddiau halen yn Sir Caer.

Arian oedd un o sgil gynhyrchion galena. Ychydig iawn a gafwyd, fel arfer o 6 i 8 owns y dunnell yn unig. Defnyddiwyd y metel arian i wneud gemwaith ac arian mân. Rhoddwyd arwydd o blu ar y darnau arian a fathwyd yn Sir y Fflint.

Yn 1720 deallwyd bod gwerth i galamin, a chloddiwyd ychydig ohono. Defnyddiwyd wrth gynhyrchu'r metel pres.

I ddechrau, tybiwyd fod y mwyn sinc (blend neu flacjac) yn ddiwerth. Ond yn 1837 ddarganfuwyd y broses galfaneiddio, oedd yn defnyddio sinc a daeth galw mawr amdani. Roedd hyn yn cadw'r mwyngloddiau'n gweithio ac yn gwneud elw ar ôl 1870au pan ostyngodd brisiau'r plwm.

Yn rhyfedd iawn cloddiwyd llawer iawn o galchfaen rhwng 1939 a 1969 pan dynnwyd hyd at 80,000 tunnell fetrig y flwyddyn. Roedd cwmni gwydr Pilkington yn tybio fod y garreg galch yma o'r ansawdd gorau, fe'i defnyddiwyd ganddynt wrth wneud gwydr. Hefyd, cafodd calchfaen ei



ddefnyddio i wneud gwrtaith. Cloddiwyd am y rhan fwyaf o'r garreg galch ar ochr ddeheuol y mynydd yn union i'r gogledd o Hendre. Mae'r siamberi tanddaearol a grëwyd yn anferth ac yn ymestyn dros nifer o erwau.

Cynnyrch

IOherwydd mewnforio mwyn plwm o Ewrop daeth pwysau ar y diwydiant o 1825 ymlaen, ond er hynny parhaodd y diwydiant yn hyderus a daeth mwy a mwy o gwmnïau newydd i fuddsoddi yn yr ardal. Erbyn 1845 cynhyrchodd Sir y Fflint y cyfanswm uchaf o bron 10,000 tunnell fetrig y flwyddyn gan gyflogi bron 3,000 o bobl. Ni chyraeddwyd y pegwn nesaf hyd y 1890au (8,000 tunnell fetrig), a'r 1930au (20,000 tunnell fetrig). Y rheswm am y naill begwn a'r llall oedd adeiladu twneli draenio dyfnion.

Mae'r cofnodion mwyaf cywir yn ymdrin â'r blynyddoedd rhwng 1845 a 1938. Gydol y cyfnod hwn cynhyrchodd Sir y Fflint bron 500,000 o dunelli o blwm sef 10% o gynnyrch y DU i gyd.

Rhy ffigyrau fel hyn yr argraff bod y diwydiant yn un iach ar y cyfan. Ond llwyddo a methu bob yn ail fu hanes diwydiannol yr ardal hon erioed. Yn aml, ar ôl blwyddyn o wneud elw mawr, deuai dirwasgiad arall a hyd yn oed gwaith yn cau. Dros y blynyddoedd ail-agorwyd y mwyngloddiau ac yna'u cau eto yn ôl mympwy llifogydd a phrisiau anwadal y plwm.

Yr ateb cyntaf i'r llifogydd: Injan bwmpio Cernyw

Daeth y peiriannau Pwmpio Cernyw i'r ardal am y tro cyntaf tua 1800. Roedd y rhain yn fwy effeithiol ac yn rhatach i'w rhedeg na'r peiriannau blaenorol a luniodd Newcomen neu Bolton & Watt. Yn ystod yr 1800au Injan Cernyw oedd y peiriant a ddefnyddiwyd amlaf i ddraenio'r mwyngloddiau dwfn. Bwyleri enfawr oedd y peiriannau hyn gyda glo'n eu tanio, fel arfer roedd ganddynt un silindr anferth oedd â phiston dros 2 medr ar draws. Roedd y peiriannau mawr hyn yn siglo trawst mawr, oedd yn ymwthio allan o un o'r tai injan, i fyny ac i lawr yn araf ond gyda phŵer mawr. Yna cysylltwyd y 'rodiau pwmpio' trwm, oedd yn gydiol at y trawst, at y pypiau dwr oedd o dan y ddaear. Roedd y symudiad i fyny ac i lawr yn y pypiau yn gyrru'r dŵr i'r wyneb drwy bibellau mawr haearn. Roedd trawst yr Injan Cernyw yn gallu gweithio ar raddfa o tua 8 symudiad bob munud ac roedd yn gallu gweithio'n ddi-dor am 6 mis neu fwy ar y tro, o dan lwyth o 56 tunnell fetrig. Pan fyddai rhai o'r mwyngloddiau'n cau, yn aml iawn fe werthwyd y peiriannau i weithfeydd cyfagos neu eu cludo i ardaloedd mwyngloddio eraill. Rhoddwyd enwau ar nifer o'r peiriannau fel ' Brenhines y Mynydd' ac roedd parch mawr iddynt, yn ôl eu gallu i godi dŵr. Nid gwaith hawdd oedd gyrru'r injan. Roedd angen medr a dewrder i feistrol'r offer llywio. I reoli'r pwysedd roedd rhaid gweithio nifer o liferi gwahanol ar yr un pryd. Yn y dechrau, ffrwydrodd rhai o'r peiriannau am nad oeddynt yn cael eu trin yn iawn, ond datryswyd y broblem hon pan ddyfeisiwyd peiriant oedd yn llacio'r pwysedd. Er mawr ryddhad i holl yrwyr Injan Cernyw ymhobman.

Bu Peiriannau Cernyw o fantais fawr i'r ardal am nifer fawr o flynyddoedd, gan ganiatáu cloddio'n ddyfnach nag erioed o'r blaen. Gwaetha'r modd, wrth i'r mwyngloddio fynd yn ddyfnach daethpwyd ar draws mwy o ddŵr ac yn y pen draw roedd hyd yn oed y peiriannau grymus hyn yn

ei chael hi'n anodd iawn ymdopi.



Yr ail ateb i'r llifogydd: Twunnel Helygain

Oni bai am y topograffi lleol byddai cloddio ar Fynydd Helygain wedi dod i ben tua 1875. Ond roedd modd gyrru twunnel hir o dan yr holl fynydd i ddraenio bob pwll oedd yn croestorri. Penderfynwyd ymestyn twunnel oedd eisoes yn filltir o hyd ac a gloddiwyd yn wreiddiol rhwng tua 1818 ac 1822. Gyrrwyd hen dwunnel Helygain ('Twunnel 1875') ar uchder o 60 metr uwchben lefel y môr gan gychwyn mewn coedwig yn ymyl tref y Fflint. Gyrrwyd y twunnel o dan Fynydd Helygain ac yn ei flaen i Bant-y-mwyn, pellter o bum milltir o'r mynediad. Oherwydd y twunnel hwn gallai llawer i fwyngloddiau ailagor a pharhaodd y cynhyrchu er bod mwyn plwm rhad yn cael ei fewnforio. Ailfywiogodd mwyngloddiau Pant-y-go, Helygain Fwyaf, Rhosesmor a Gogledd Hendre am 30 neu 40 o flynyddoedd. Erbyn 1920 roedd y mwyngloddiau hyn wedi'u gweithio hyd at y twunnel, neu'n ddyfnach na'r twunnel, ac unwaith eto rhoddodd y llifogydd ddiwedd ar y gwaith.

Yr ateb olaf: Twunnel y Milwr

Un dewis yn unig oedd er mwyn i gloddio allu parhau yn yr ardal - rhaid oedd gyrru twunnel newydd o'r lle dyfnaf posib. Dechreuwyd adeiladu Twunnel y Milwr yn 1897 o'r arfordir ym Magillt. O 1928 ymlaen roedd y twunnel yn ymestyn o siafft Pen-y-bryn yn Helygain, lle caed melin fawr yn trin y mwyn. Wrth i'r twunnel fynd yn ei flaen tua'r de, symudodd y gwaith o Ben-y-bryn i siafft yr Olwyn Goch yn Hendre. Yn y diwedd, gyrrwyd y twunnel hwn am 10 milltir i Cadole ger Loggerheads erbyn 1957. Dyma un o dwneli draenio pyllau hiraf y DU. Mae'n draenio dros 50 o wythiennau yn llwyddiannus ac yn creu drysfa o dros 60 milltir o gynteddau sy'n gysylltiedig â'i gilydd. Er bod prisiau mwyn isel yn gwanhau'r diwydiant yn sylweddol, roedd Twunnel y Milwr yn cloddio gwythiennau na wyddai neb am eu bodolaeth ac yn gwneud elw o archwilio hen wythiennau mewn ffordd systematig drwy gloddio mwyn hyd at lefel y môr, neu hyd yn oed o dan lefel y môr.

Cloddio yn y 1930au

Ar ôl 1928 un cwmni yn unig, 'Halkin District United Mines' oedd yn gweithio holl fwyngloddiau'r ardal. Datblygodd y cwmni ddull fwyngloddio oedd yn wahanol iawn i'r dull traddodiadol o weithio'r gwythiennau'n ddyfnach ac yn ddyfnach drwy nerth braich. Ond gweithiwyd y mwyafrif o wythiennau tuag at i fyny o Dwannel y Milwr neu eu ganghennau. Gyrrodd y cwmni dwneli ar hyd pob gwythien a daethant ar ei thraws gan symud yr holl fwynau o'r wythien a gweithio ar i fyny nes cyfarfod â gwaelod y gloddfa 'Hen Wŷr' – y pwll dyfnaf oll. Canlyniad hyn oedd creu eangderau mawr agored, rhyw 60 medr o uchder a 400 medr o hyd. Roedd lled gwythiennau o'r fath yn amrywio o 1 i 2 fedr yn unig. Cludwyd yr holl gerrig gwastraff a'r galena ar y trên i waelod siafft Pen-y-bryn neu'r Olwyn Goch a'u codi i'r wyneb i'w brosesu. Yn ystod y 1930au, cyflogwyd hyd at 650 o ddynion a thorri record am greu twneli mwyngloddio.



Y Cloddio am blwm yn dod i ben

Caeodd y mwyngloddia diwethaf ym Mhrydain oherwydd prisiau isel y plwm a fewnforiwyd. Roedd mwyngloddiau Helygain yn cynhyrchu llai a llai hyd y 1970au pan gloddiwyd un wythien yn unig ym Mhant y Buarth rhwng Cadole a Gwernaffield. Ar ôl hanes o bron 2,000 o flynyddoedd tynnwyd y mwyn olaf o'r wythien hon yn 1978. Cadwyd y pwll ar agor am ychydig o flynyddoedd eto ar sail 'cynnal a chadw' ond caeodd yn gyfan gwbl o'r diwedd yn 1987, canolfan y gwaith ar y pryd oedd yr Olwyn Goch yn Hendre. Yn fuan wedyn tynnwyd y ffrâm a chaewyd y siafft am byth.

Y Cloddio am blwm yn dod i ben

Caeodd y mwyngloddia diwethaf ym Mhrydain oherwydd prisiau isel y plwm a fewnforiwyd. Roedd mwyngloddiau Helygain yn cynhyrchu llai a llai hyd y 1970au pan gloddiwyd un wythien yn unig ym Mhant y Buarth rhwng Cadole a Gwernaffield. Ar ôl hanes o bron 2,000 o flynyddoedd tynnwyd y mwyn olaf o'r wythien hon yn 1978. Cadwyd y pwll ar agor am ychydig o flynyddoedd eto ar sail 'cynnal a chadw' ond caeodd yn gyfan gwbl o'r diwedd yn 1987, canolfan y gwaith ar y pryd oedd yr Olwyn Goch yn Hendre. Yn fuan wedyn tynnwyd y ffrâm a chaewyd y siafft am byth.

Archwilio heddiw

Ers i gloddio am blwm ddod i ben ac ers i'r pwll olaf gau yn 1987, rhoddwyd trwydded i grŵp lleol o bobl sy'n frwd i archwilio ogofeydd a mwyngloddiau i fynd i archwilio Mwyngloddiau Helygain. Ers 1994 buont yn archwilio dros 30 o wythiennau gwahanol a chyfanswm o 23 milltir o ffyrdd tanddaearol. Bu'r Clwb Ogofau Grosvenor yn tynnu ffotograffau o'r gwaith a'r gwrthrychau ac maent yn dal i archwilio'r rhannau pellaf o'r mwynglawdd dyrys.

Gadawyd llawer o beiriannau o dan y ddaear pan gaeodd y pwll. Mae yma locos disel a batri, nifer o fathau o stoc rheilffordd, driliau awyr cywasgedig, hen beiriannau pwmpio, winshis drwm, bwcedi pren, hetiau ffelt, canhwyllau gwêr ac yn y blaen. Bu rhai o'r pethau yma heb eu cyffwrdd ers 120 o flynyddoedd. Dwy eitem brin o 1883 yw car llusg o bren a ddefnyddiwyd i dynnu'r bwcedi o fwynau ar hyd y ffordd danddaearol, a chynfas mwynau a ddefnyddiwyd i gasglu'r mwyn a geibiwyd o'r nenfwd.

Mae'r mwyafrif o'r gweithfeydd a archwiliwyd o Dwannel y Milwr o'r cyfnod ar ôl 1928, ond mae'r gweithfeydd hyn yn nes at y wyneb. Y pyllau o gwmpas Rhosesmor, Hendre a Helygain oedd lle y darganfu'r archwilwyr ogofau yr hen weithfeydd yn gyntaf. Mae'r rhain o'r cyfnod rhwng 1870 a 1920. Datgelodd y gwaith archwilio diweddaraf yn ymyl Pentre Helygain weithfeydd sy'n mynd yn ôl i 1840.

Ni chaed unrhyw dystiolaeth o weithfeydd Rhufeinig ar y Mynydd, byddai'r rhain yn agos at yr wyneb. Os oes ffyrdd tanddaearol o oes y Rhufeiniaid yn dal yma, tybir iddynt gael eu defnyddio i daflu gwastraff ac efallai bod angen eu cloddio, fel y digwyddodd yn y mwyngloddiau copr Oes yr

Efydd ym Mhen y Gogarth. Yr unig dystiolaeth Rufeinig a ddarganfuwyd yn ein pyllau lleol ni yw ingotau plwm yn y Fflint.



Amodau byw'r mwynwyr

Tai

Bythynnod y mwynwyr

I'r mwynwyr oedd yn gallu fforddio, yr arferiad yn y rhan fwyaf o ardaloedd mwynloddio metel yn y DU oedd cymryd darn gwastraff o dir a chodi tŷ arno. Byddai hyn yn golygu llawer o ymdrech ac amser, a byddai'n cyfateb i fisoedd lawer o gyflog. Yn 1861 gellid adeiladau bwthyn mwynwr am £50 i £100. Tŷ syml un ystafell oedd hwnnw gyda dwy ystafell wely yn y llofft. Byddai naill ai pridd neu gerrig gwastad ar y lloriau. Byddai'r bythynnod yn debyg i fythynnod pobl nad oeddent yn fwynwyr.

Roedd y mwynwyr hyn yn byw yn eu cartrefi rhydd-ddaliad eu hunain a byddai hynny'n rhoi annibyniaeth werthfawr iawn iddynt. Roedd hyn yn cythruddo Asiant y Teulu Grosvenor a ddywedodd *'Ni ddeallaf pam mae mwynwr yn dewis codi ei gartref ei hun am £100 pan fyddai'n gallu rhentu bwthyn clyd am "£ 2 y flwyddyn'.*

Yn 1842 disgrifiwyd bythynnod mwynwyr Helygain yn *'fythynnod twt heb fawr o ddodrefn' 'roedd gan y rhan fwyaf o leiaf fat carpiâu i feddalu'r aelwyd'.* Yn y blynyddoedd wedyn roedd cloc gan y rhan fwyaf o deuluoedd y mwynwyr, yr eitem nesaf oedd cyllyll a ffyr metel, yna dechreuodd llestri ac addurniadau eraill ymddangos, arwydd o gychwyn y gymdeithas defnyddwyr sydd ohoni heddiw.

Yn wir roedd nifer o deuluoedd mwynwyr ar y mynydd yn dlawd iawn, yn enwedig pan roedd y pyllau wedi cau a dim cyflog yn dod i mewn. Cyfnod o'r fath a ddisgrifir yn y ddau ddyfyniad digalon isod, er efallai mai enghreifftiau eithafol oedd y rhain.

Clywodd Ymholiad Y Llywodraeth yn 1846:

'Mewn rhai bythynnod mwynwyr mae yna un ystafell tua 9 i 12 troedfedd yn sgwâr. Mae ychwanegiadau ar rai bythynnod eraill, ar oledd, lle i gysgu ar wahân. Yn gyffredinol, nid oes dodrefn ynddynt, gwnaed y to o bletwaith neu wellt ac maent yn dyllau i gyd ac yn agored i'r awyr'.

Yn ôl Papurau'r Senedd yn 1864 dywedwyd bod y gymuned fwyngloddio yn Helygain wedi'i beirniadu am aer drwg a draenio drwg.

'Roedd y carthbyllau'n rhy agos at y tai ac roedd heintiau teiffws a'r dwymyn goch yn digwydd fyth a beunydd.'

Baracs y mwynwyr

Peth cyffredin ledled Ewrop oedd cynnig llety i'r mwynwyr nad oeddynt yn byw yn lleol. Mae un baracs yn dal ar Fynydd Helygain, yn ymyl Pwll Pant-y-go (llun) rhwng Rhosesmor a Helygain. Byddai'r mwynwyr yn aros yn y baracs yn ystod yr wythnos, gan dalu 3 ceiniog yn 1888, ac yn mynd adre dros y Sul.

Yn 1888 gwnaed y sylw bod gan rai o fwyngloddiau Ewrop faracs oedd yn gynnes ac ystafelloedd newid â gwres ynddynt. Ond disgrifir rhai Cymru'n ' Fudr, afler ac anghyfforddus gyda'r dynion yn cysgu dau mewn gwely,'

ond efallai mai cyfeiriad at ganolbarth Cymru oedd hwn. Bu ymgais i geisio gwella'r amodau ym maracs Cymru, ond oherwydd y dirywiad yn y diwydiant ar y pryd, rhoddwyd y cynlluniau o'r neilltu.



Afiechydon a damweiniau

Gwenwyn carbon deuocsid

Roedd y gwyntyllu sâl oedd mewn llawer o'r pyllau lleol yn golygu bod gan y mwynwyr amodau gweithio ofnadwy. Wrth i'r dynion a'r canhwyllau ddefnyddio'r ocsigen yn yr awyr, crewyd carbon deuocsid. Enw'r mwynwyr ar hwn oedd 'damps', roedd yn peri i'r mwynwyr ymladd am eu gwynt a thro'i'n goch yn eu hwynebau. Ychydig iawn o'r nwy oedd ei angen cyn i'r gannwyll ymladd i losgi neu diffodd yn llwyr. Derbyniwyd gweithio mewn aer drwg yn un o beryglon gweithio mewn pwell ar y Mynydd, byddai anadlu llawer iawn o'r nwy'n farwol. Talwyd mwy i'r mwynwyr am weithio mewn lleoedd heb aer da, i'w hannog i fynd yma.

Daeth mwynwr o Swydd Derby, William Hooson, i weithio yn y mwynloddiau yn Sir y Fflint ac ysgrifennodd eiriadur mwynwyr yn 1747. Mae'n disgrifio'r damp afiach fel hyn...

' Mae'r aer yn drwchus ac yn lleidiog, mae'n gwneud iddo golli'i wynt a chwythu, chwysu mewn poen, cur yn ei ben a'i gylla. Pan ddaw allan i'r awyr yn y dydd caiff ei boeni gan y bendro a chwydu.'

Gwenwyn plwm

Peth cyffredin iawn oedd y gwenwyn plwm. Yr enw arno gan y mwynwyr oedd 'bellan'. Ymhlith y symptomau arferol roedd rhwymedd, cwlwm, chwydu, archwaeth gwael, colli pwysau, gwaed tenau, gwendid y cyhyrau, cur pen. Disgrifir symptomau eraill yn ' Croen pŵl, corff llaith gyda chwys a gwms glas.'

Llinell amlwg ddu dros y gwms oedd gwms glas, un o nodweddion gwenwyno plwm.

Gwaethygydd y clefyd gan yr arfer o lenwi'r tyllau siot gyda phlwm yn lle tywod. Nid oedd unrhyw iachâd y gwyddys amdano ond roedd mwynwyr yn ceisio lleddfu'r afiechyd drwy fwyta bara a drochwyd mewn olew melys a pheidio yfed alcohol.

Ar wyneb y tir roedd gwenwyn plwm yn broblem i anifeiliaid hefyd. Rhwystrwyd y gwartheg a'r defaid rhag yfed y dŵr llygredig a redai o'r manau golchi plwm, y ponciau baw a'r pyllau plwm. Yn 1780 rhoddwyd iawndal o £3.15.0 i ffermwr oedd yn byw yn ymyl Pwll Maeslygan ger Helygain am gasg a buwch a fu farw o'r bellan.

Dyma ddisgrifiad Hooson o wenwyn plwm.....

Belland: yr enw ar glefyd sy'n digwydd i fwynwyr yn aml iawn. Nid yw'n cael ei daro ganddo, ond wrth i fwynwr weithio'r mwyn caled mae'r llwch, sydd ag arogl sylffwr arno ac sy'n codi o'i gaib, yn mynd i'w berfeddion ac yn achosi rhwymedd rhyfedd a phoen annioddefol am ddiwrnodiau. Yn aml, y peth gwae-tha yw na all holl fedrau'r meddyg ei wella'n hawdd.

Erbyn hyn mae peryglon gwenwyn plwm lawer llai nag yn y gorffennol. Mae'n debyg mai'r risg mwyaf i bobl yw yfed dŵr llygredig am gyfnodau hir.

Silicosis



Roedd clefyd yr ysgyfaint yn fwy eang. Os oeddech yn fwynwr plwm ar Fynydd Helygain cyn 1900 mi fyddech yn fwy tebygol o farw rhyw 15 i 20 mlynedd yn gynt na rhywun nad oedd yn fwynwr. Cyfuniad o silicosis a gwenwyn plwm oedd y rheswm am hyn. Yr enw ar silicosis gan y mwynwyr oedd y ddarfededigaeth, phthis, pydredd, neu asthma mwynwyr. Dyma'r haint diwydiannol cynharaf, mae cofnodion yn bodoli amdano mewn mwyngloddiau cerrig yn ne Lloegr mor bell yn ôl â 5,000 o flynyddoedd.

Cafodd ei gydnabod o'r diwedd fel 'silicosis', sef clefyd a achosir gan lwch silica a oedd yn cael ei anadlu i'r ysgyfaint.

Gwnaed y cysylltiad rhwng y clefyd a'r llwch mor gynnar â 1556 gan Agricola, meddyg o'r Almaen oedd yn arbenigo mewn mwyngloddiau. Ond ni chadarnhawyd ei ddamcaniaeth am 350 o flynyddoedd wedyn.

Roedd niferoedd yr achosion silicosis yn amrywio yn ôl y math o graig a gloddiwyd. Er enghraifft, nid oedd gymaint o silica rhydd yn y calchfaen ar fynydd Helygain ag yn y creigiau siert cyfagos, neu'r cloddfeydd llechi yn Ffestiniog ble roedd y marwolaethau'n uwch fyth.

Ar ôl 1875 dechreuwyd defnyddio driliau aer cywasgedig, a bu cynnydd enfawr yn achosion silicosis am fod mwy o lwch yn yr awyr. Roedd y drilio'n digwydd heb unrhyw ymdrech i leihau'r llwch a grëwyd. Yn fuan iawn roedd y mwynwyr yn marw o fewn tair neu bedair blynedd o ddefnyddio'r driliau hyn heb ddŵr. Pan ddaeth y driliau hyn i'r pyllau i ddechrau ystyriodd y gwneuthurwyr fod cyflenwad o ddŵr pibell yn hanfodol i gadw'r llwch i lawr ac i oeri'r ebill, ond ni wnaed unrhyw sylw o hyn yn y pyllau.

Erbyn hyn derbynnir mai llwch yw achos y clefyd hwn, ond araf iawn fu'r diwydiant mwyngloddio i dderbyn hyn. Mewn gwirionedd, roedd hi'n 1904 cyn daeth cydnabyddiaeth swyddogol mai anadlu llwch y garreg oedd y rheswm am gymaint o farwolaethau. Wedyn, addaswyd y peiriannau drilio i sicrhau fod dŵr yn cadw'r llwch i lawr i lefel dderbyniol. Yn ystod yr 20fed ganrif, rhwng 1918 a 1950 y bu'r mwyafrif o gloddio am blwm ar Fynydd Helygain. Roedd y gwaith drilio'n ddiogel ar y cyfan yn ystod y cyfnod hwn.

Nid oedd y glowyr yn y pyllau glo cyfagos yn dioddef o silicosis yn aml iawn am nad oedd llawer iawn o silica yn yr haenau glo, ond roedd nifer yn dioddef o pneumoconiosis, clefyd arall yr ysgyfaint. Clefyd ysgyfaint difrifol oedd hwn, ac eto roedd glowyr yn byw yn hirach na'r mwynwyr plwm.

Roedd gwenwyn plwm a silicosis, y naill a'r llall, yn gyffredin ymhlith mwynwyr Mynydd Helygain, fel y dengys y dyfyniadau isod:

' Mae'r clefydau hyn yn cael effaith poenus mor gynnar â 25 oed, ac yn cynyddu'n raddol hyd 35 oed. Daw marwolaeth yn gymharol fuan oherwydd y clefyd.' (meddyg lleol, 1842)

'Croen gwelw fel lludw, llygaid wedi'u suddo yn y pen, a theneuwch mor eithafol nes bod y croen yn edrych fel petai wedi cael ei ludo at esgyrn yr wyneb. Mae'r symptomau hyn yn argoeli darfededigaeth anwelladwy gronig' (1830)

Mae'r rhai a fu'n gweithio'n hir yn y pyllau yn edrych yn hen cyn eu hamser, maent yn cerdded yn wyrgam, ac mae golwg pryderus ar eu hwynebau. Maent yn denau, yn welu, ac yn lliw afiach, gyda chroen arbennig o lwydaidd ganddynt. Mae'r dynion yn edrych wedi llwyr ymladd ac yn fusgrell. (1864)



Gwelaf lowyr sy'n hen wyr, ond fedra i ddim dod o hyd i un hen fwynwr plwm (crwner o'r Wyddgrug, Peter Parry 1864)

Gwelais ddynton y dŵwedwn i nad oeddynt yn ffit i gropian allan o'u gwelyau na dros y trothwy yn dal i fynd i'w gwaith a llafurio am ddiwrnod. (llawfeddyg yr Wyddgrug Robert Parry 1864)

Pan fydd mwynwr yn cyrraedd ei ddeugain oed, fydd o ddim yn werth clec ar fys' (captan pwll o Gymru 1864)

Damweiniau

Yn ystod blynyddoedd olaf y diwydiant, o leiaf, nid oedd damweiniau anghuol o dan y ddaear yn digwydd mor aml â'r disgwyl. Yn ystod y 40 mlynedd o 1873 ymlaen roedd 22 o farwolaethau yn y pyllau ar Fynydd Helygain. Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd cwmp y graig, blastio, syrthio oddi ar ysgolion, neu syrthio i lawr y siaffiau. Yn Rhosesmor yn 1860 roedd bachgen ifanc yn dringo'r ysgolion un amser cinio pan syrthiodd 2 lath yn unig o'r wyneb, a bu farw. Digwyddodd y ddamwain waethaf a gofnodwyd mewn pwll lleol, yn 1862 ym mwll Bryn Gwiog, ger Moel y Crio. Torrodd y mwynwyr drwodd i hen weithfeydd oedd o dan y dwr a lladdwyd 16 ohonynt. Roedd eu hoedran yn amrywio o 14 i 66. Roedd 17 o ddynton yn gweithio yn '120 yard level' pan fyrstiodd llifogydd dŵr drwodd o'r hen weithfeydd oedd ar yr un wythien. Lladdodd y llifogydd 16 o bobl, ond llwyddodd Edward Powell i ddod o hyd i ysgol a thynnu'i hun i fyny ar hyd rhaff ganllaw at ddiogelwch. Gadawodd y ddamwain 10 o weddwon, a 25 o blant. Mewn cyfarfod ar ôl y ddamwain, agorodd Marcwis Westminster gronfa gan gyfrannu £100, rhoddodd cwmni mwyngloddio Bryngwiog £200. Erbyn diwedd y cyfarfod casglwyd £700.

Mewn ymholiad i'r ddamwain yn ddiweddarach fe gafwyd y cwmni'n ddiuog am nad oedd unrhyw gynlluniau o'r hen weithfeydd ar gael i'r cwmni eu gweld.

1867: lladdwyd pedwar o fwynwyr ym mhull Deep Level, Helygain pan ddaeth llifogydd dŵr yn dilyn codwm. Enwyd y rhai a laddwyd yn John Martin, 42 oed, Thomas Evans, 31 oed, George Jones, 35 oed a George Hayes, 21 oed.

Disgrifiodd yr Arolygwyr Mwyngloddiau ddamweiniau eraill mewn adroddiadau.

1877: Medi 5ed. Pwll Deep Level, Helygain. Thomas Harris, mwynwr 54 mlwydd oed. Syrthiodd lein-in carreg y siafft roedd yr ymadawedig a rhai eraill yn gweithio ynddi (anfonodd Dug Westminster £10 i'w weddw).

1886 Medi 13. Pwll Helygain. William Jones, 26 mlwydd oed, gof.

Darganfuwyd ceudwll mawr o dan y ddaear ym Mhull Helygain a defnyddiodd yr asiant gwch bychan i'w archwilio. Ar ôl iddo fynd neidiodd y gof, a oedd yn ôl y sôn ddim erioed wedi bod mewn cwch o'r blaen, i mewn i'r cwch o chwilyfrydedd yn unig. Pan roedd ychydig o'r lan neidiodd ar ei draed yn y cwch simsan, suddodd y cwch a boddodd y gof. Roedd wedi priodi dair blynedd ynghynt yn Helygain, a gadawodd dair o ferched.

Darganfuwyd y ceudwll hwn yn y lle cyntaf yn Powell's Lode o dan bentref Rhosesmor, roedd yn 60 metr uwchben lefel y môr. Ni chaed gwybodaeth am ddyfnder y llyn hwn hyd 45 o flynyddoedd wedyn pan dorwyd i mewn i'r ceudwll ar lefel y môr, ac wedyn roedd dyfnder y llyn



o leiaf 60 metr arall o dan lefel y môr.

1896: *Pwll Dwyrain Helygain. Isaac Stealey, 24 mlwydd oed. Lladdwyd pan darodd ei ben yn erbyn y to wrth iddo gael ei dynnu i fyny ar ei eistedd mewn wagen. Roedd yn teithio fel hyn yn erbyn y rheolau.*

1899: *Pwll Dwyrain Helygain. Richard Edwards, 50 mlwydd oed, coediwr. Wrth iddo fod wrthi'n trwsio siafft oedd ar oledd syrthiodd i'r gwaelod am 25 llath. Bu farw ar unwaith.*

Mae'n debyg bod y ddwy ddamwain uchod yn cyfeirio at siafft yn union i'r gorllewin o Ficerdy Rhosesmor. Yr enw arni oedd Siafft y Plim, roedd dynion yn teithio ynddi i'r wyneb mewn sgip fetel. Ychydig o flynyddoedd wedyn fe'i caewyd am ei bod yn ansad.

Digwyddai damweiniau'n bur aml yn ystod y blynyddoedd cynnar, naill ai am fod yr arferion yn gyntefig neu oherwydd dihidrwydd. Y rheswm am nifer o'r damweiniau oedd y llawr yn rhoi neu godwm. Araf iawn y gwellodd cyflwr pethau hyd ganol y 1800au, ac yna sefydlwyd nifer o Gomisiynau Brenhinol i edrych ar gyflwr y diwydiant. Holodd un comisiwn am Blant mewn Pyllau yn 1842. Yn rhan o'r ymholiad hwn astudiwyd marwolaethau yn y pyllau, ac mae plant lleol a fu farw o dan ddaear ymhlith yr enwau hyn.

Francis Carrington, 13 oed. Bu farw ym Mhwll (Deep Level) Helygain

William Lloyd 13 oed. Bu farw ym Mhwll (Deep Level) Helygain

Joseph Davies 13 oed. Bu farw ym Mhwll (Deep Level) Helygain

John Evans 10 oed. Bu farw ym Mhwll Hendre


Streiciau ac aflonyddwch

1623: Diddymodd Richard Grosvenor yr hen ddeddfau cloddio. Fel y crybwyllwyd eisoes, bu achos llys a'r canlyniad oedd buddugoliaeth i'r Teulu Grosvenor. Cafwyd gwared i'r deddfau mwyn gloddio. Byddai gan y mwynwyr gynrychiolaeth gyfreithiol sâl o gymharu â'r Teulu Grosvenor a oedd, hyd yn oed yn y cyfnod hwn, yn gyfoethog a dylanwadol. Bu llawer iawn o chwerwder ar y pryd, er hynny nid oes unrhyw gofnod o streic nac unrhyw weithrediadau eraill gan y mwynwyr.

1822: Grwpiau bach o fwynwyr oedd yn gweithio'r pyllau, ond roedd pob mwynwr yn feistr arno'i hunan. Pan ddaeth y cwmnïau mwyngloddio roedd y berthynas rhwng y rheolwyr a'r mwynwyr yn ddrwg weithiau. Erbyn 1822 roedd pyllau'r Teulu Grosvenor ym Mhant y Go wedi bod mewn trafferthion. Galwyd am John Taylor, peiriannydd mwyngloddiau enwog o Gernyw, i geisio gwella pethau. Daeth Taylor â chapeiniaid pyllau o Gernyw a gorfodi deddfau newydd llym ar y mwynwyr.

Tybiai'r mwynwyr fod y rheolau hyn yn annheg ac yn amhosib ufuddhau iddynt. Un gwyn penodol oedd nad oedd y cwmni'n cyflenwi digon o goed i gynnal y pwll. Ysgrifennodd y mwynwyr ddeiseb a'i hanfon i'r senedd, dyma ddyfyniad ohoni....

Ynghylch Thomas Williams, yr asiant o dan y ddaear, gwrthododd roi cyflenwad digonol o goed. Gallem gyfeirio at nifer o adegau pan beryglwyd bywydau'r mwynwyr a dioddefodd eich arglwyddiaeth golled ddiangen am na chynhaliwyd y gweithfeydd yn briodol gan goed. Pan rydym yn



cwyno, yn lle gwneud iawn, mae'n ein curo â rhegfeydd.

1850: TBu'r anghydfod chwerwaf yn codi o'r ymdrechion i newid y diwrnod 6 awr hanesyddol i ddiwrnod 8 awr. Roedd y dynion yn deall yn iawn am wenwyn plwm a chlefyd y frest, ac roeddynt o'r farn fod diwrnod 6 awr yn fwy na digon, yn arbennig mewn pyllau lle'r oedd yr aer yn ddrwg fel Pant-y-go. Roedd rhai o byllau Sir y Fflint eisoes wedi dechrau diwrnodiau 8 awr erbyn 1850, ond pan geisiodd Taylor ddechrau'r drefn hon ym mhwl Pant-y-go, bu gwrthwynebiad cryf. Aeth torf o 500 o fwynwyr i ddfrodi tai'r rheolwyr ac ni allai'r heddlu lleol wneud dim. Yr wythnos ddilynol galwyd y milwyr i mewn ac arestiwyd arweinwyr y mwynwyr am derfysg, ond nid oedd neb am dystio yn eu herbyn.

1866: Prynodd 'Taylor and Sons' brydles ar bwll Pant-y-go a cheisio dod â diwrnod gweithio 8awr. O'r herwydd gorymdeithiodd cannoedd o ddynion i Bant y Go i alw am streic. Wythnos yn ddiweddarach, cyrhaeddodd mintai o'r 86fed gatrawd i adennill rheolaeth, a nifer o blismyn gyda'u cleddyfau ar agor hefyd. Anerchodd yr Asiant Mwyngloddio'r dorf, ac aethant adre heb fwy o helynt.

Roedd y mwynwyr yn mynnu y byddai gweithio am 8 awr y dydd yn dyblu'r marwolaethau, ond honnodd Taylor fod bron pob un o'r mwyngloddiau lleol yn colli arian, ac nad oedd modd fforddio diwrnod 6 awr. Dywedodd hefyd '*Y gwaith ychwanegol maent yn ei wneud, nid eu gwaith yn y pyllau yw'r rheswm fod y mwynwyr yn hen yn ddeugain oed.*' Dangosodd y mwynwyr mai 18 yn unig o'r 388 o ddynion oedd yn gweithio yn eu pyllau eu hunain.

Parhaodd y streic am 12 mis a dioddefodd y mwynwyr yn enbyd yn ystod y cyfnod hwn. Cyflogodd y cwmni ychydig o ddynion nad oeddynt yn fwynwyr, a gweithredodd y mwynwyr yn uniongyrchol unwaith eto. Taflwyd craig dwy dunnell i lawr y siafft gan achosi cryn dipyn o ddi-frod. Clymodd y mwynwyr wyth o ddynion dieithr oedd yn gweithio yn y pwll at ei gilydd gyda rhaffau a'u gorfodi i orymdeithio drwy Dreffynnon a Maes Glas.

Fe weithredodd yr heddlu o'r diwedd. Gyda gyrdd a throsolion torasant i mewn i dai'r arweinwyr a'u harestio. Cawsant eu cyhuddo o derfysg ac ymosod mewn Llys Ynadon arbennig yn yr Wyddgrug. Gorymdeithiodd y mwynwyr drwy dyrfa o ddwy neu dair mil.

William Jones, Felin Wynt oedd un o'r dynion a arestiwyd. Cafodd chwe mis o lafur caled. O ganlyniad bu rhaid i'w fab deuddeg oed, Llywelyn, ymadael â'r ysgol a dechrau gweithio yn y chwarel fel labrwr i gadw'i deulu. Bu farw ymhen saith mlynedd wedyn, yn 19 oed.

Daeth y streic i ben pan dderbyniodd y dynion y diwrnod wyth awr.

Aeth y gwrthwynebiad yn ei flaen, fodd bynnag, a'r flwyddyn wedyn fe fynnodd rai cannoedd o ddynion ddychwelyd at y diwrnod 6 awr oherwydd yr amodau gwlyb a di-awyr yn y pwll.

1901: Ar ôl adeiladu Twannel Helygain gwnaeth llawer o'r mwyngloddiau elw anhygoel gydol y 1880au. Yn 1890 aeth y mwynwyr ar streic gan fynnu rhan o'r cyfoeth hwn a gofyn am godiad cyflog o 30%. Ar ôl ychydig o wythnosau aethant yn ôl i'w gwaith gyda 10% o godiad.

1934: Bu'r streic olaf pan geisiodd Pyllau Unedig Ardal Helygain symud y ganolfan gweithredu o siafft Pen-y-Bryn yn Helygain i siafft yr Olwyn Goch yn Hendre. Ni allai'r cwmni osgoi'r symud hwn oherwydd eu bod yn gyrru Twannel y Milwr tua'r de. Dywedodd

COMIN MYNYDD HELYGAIN Pecyn Adnoddau Addysg

rheolwr y pwll, JB Richardson, wrth y dynion 'Gallwch aros ar streic cyn hired â leiciwch chi, mae gen i ddigon o fara am byth'. Yn y diwedd aeth y dynion yn ôl i weithio am swllt y diwrnod yn llai o arian na chyn y streic. (gweler ymarfer 5. 'Streic')



Comisiwn Kinnaird

Comisiwn oedd hwn i archwilio i ddiogelwch mwyngloddiau metel Prydain. Datgela lawer am fywyd y mwynwr plwm ar Fynydd Helygain. Dyma rai dyfyniadau o gyfweiliadau gyda phobl leol yn 1841.....

James Jones, 17oed Mwynglawdd Plwm y Milwr.

Dechrau'n 11 oed yn golchi'r mwyn ar yr wyneb. Gweithio o 7 y bore hyd 6 y nos gydag awr i ginio. ' Mae'r gwaith yn rhwymo fy mherfedd yn aml, meddai gan gyfeirio at y gwenwyn plwm. ' Mae ein dwylo yn y dŵr drwy'r amser ac mae'n traed yn wlyb fel arfer wrth inni weithio. ' Cyflog, 7 swllt yr wythnos.

Richard Hughes, 10 oed. Pwll Plwm y Milwr

Dechrau'n 9 oed. Cael 3 swllt yr wythnos a'i roi i gyd i'w fam. Mae'r gwaith yn ei wneud yn flinedig, ond ni chaiff ei guro o gwbl. Cysgu'n dda. Cerdded filltir i'w waith. Mynychu'r capel yn rheolaidd. ' Mae'r goruchwyliwr yn gwneud inni weithio'n galed dros ben a chawn i ddim diogi. '

Owen Owens, Gweinidog, Rhos y Cae.

' Nid yw'r mwynwyr yn hirhoedlog. Maent yn tueddu dioddef asthma (silicosis) ac yn marw'n ifanc yn aml iawn. Anaml y gwelwch fwynwr sy'n 60 mlwydd oed.

Edward Redfern, 15, Deep level, Helygain.

Dechrau'n 10 oed yn golchi mwyn. Yn 15 oed roedd ei gyflog yn 3 swllt yr wythnos. Roedd yn gallu darllen y Gymraeg ac yn dysgu ysgrifennu. Mwynwr oedd ei dad ond torrodd ei goes mewn pwll ryw bum mlynedd yn flaenorol, ni weithiodd wedyn. Roedd y tad yn derbyn 3 swllt yr wythnos oddi wrth y plwyf. Mae Edward yn disgrifio'i ddillad yn ' Ddim yn ddillad da iawn. Ond mae dwy siwt gen i. Does fawr o ddodrefn yn y tŷ. Mae cloc a dau wely gennym, a dillad gwely da. Cafodd ei addysg yn Ysgol yr Arglwydd Grosvenor.

John Jones, 16. Pwll Deep Level, Helygain

Bu'n trin y mwyn ers chwe blynedd, tâl tua chwe swllt yr wythnos. Talwyd 2d y mis i dalu'r meddyg. Gallai ddarllen ac ysgrifennu. Byw efo'i fam. Lladdwyd ei dad yn y pwll 13 o flynyddoedd yn flaenorol. Byw efo brawd a chwaer hefyd. Y teulu'n byw ar gyflog y ddau fachgen, sy'n 10swllt yr wythnos. Mae ganddynt gnwd o datus sy'n mynd â'u hamser sbâr yn jstod yr haf. ' Yn y gaeaf, byddaf yn darllen y Beibl yn aml, bod yn gymorth i fy mam, byddaf yn mynd i'r capel dair gwaith ar y Sul. Rydym yn cael ein dysgu yn Ysgol yr Arglwydd Grosvenor. '

Thomas Williams, 46 mlwydd oed, Deep Level, Helygain

Chwech o fechgyn o 10 oed i fyny, gweithio o dan y ddaear yn pumpio aer i mewn i'r pwll i'w wyntyllu. Ynghylch silicosis ' Llawer o fwynwyr yn marw cyn cyrraedd 50 oed'

Edward Roberts, 49. Asiant, Pwll Plwm Hendre

HANES

' Pymtheg swllt yr wythnos oedd y tâl ar gyfartaledd i rai'n tyllu a gyrru. Roedd gan y tyllwyr swydd fwy cyfrifol ac maent yn mynd i'r pwll ar y Sul rhag ofn bod rhywbeth yn mynd o'i le ar yr injan a'r pypiau. '



Roedd y rhan fwyaf o'r mwynwyr yn gweithio chwe awr yn y cyfnod hwn. Yn eu hamser sbâr roedd rhai o'r mwynwyr yn hunan gyflogedig ac yn chwilio am fwynau. ' Bydd dau neu dri neu fwy o fwynwyr yn derbyn nodyn-cymryd oddi wrth y tirfeddiannwr ac yn sigo pwll i chwilio am y mwyn. Anaml iawn mae'r mentrau hyn yn llwyddo.

Cofiaf yr adeg pan nad oedd y mwynwr gartref ryw lawer, roeddynt yn swnllyd, yn ffraeo ac yn ymladd o'r hyd ac yn gwneud bob mathau o ddrygioni; pan roedd y dydd Sabbath yn ddydd meddwod a therfysg. Mae pethau'n wahanol iawn erbyn hyn – maent yn drefnus, yn drwsiadus eu gwisg, yn parchu'r Sabbath a'i gadw'n dda. Adeiladu capeli ymhobman yw'r rheswm am y gwelliant.

Y Capten Francis Evans, Pwll Bryn Gwio, Moel y Crio

' Roedd hi'n arferiad ymhlith y mwynwyr, ni waeth faint o deulu roedd ganddynt, deuddeg swllt yn unig byddant yn ei roi i'w gwagedd, a dim mwy. Os roeddynt yn ennill 15/- yr wythnos byddant yn rhoi 12/- i'r wraig ac yfed y gweddill. Caiff gweision fferm, os ydynt yn briod, y fraint o gadw buwch. Maent yn byw yn well o lawer na'r mwynwyr. '

John Evans, 10 oed, Pwll Plwm yr Hendre

Ciper yw'n Nhad, ond nid yw'n byw gartref efo ni. 'Fydda i ddim yn mynd i'r capel yn rheolaidd am fod fy nillad yn rhai gwael ac mae cywilydd arna i fynd. Mae ar Mam angen fy nghyflog i gyd i dalu am fwyd imi, ond ni rododd hi ddillad imi pan fydd eu hangen arna i. Mae Mam yn mynd i'r capel yn rheolaidd ond yn dweud bod rhaid imi aros gartref am fod fy nillad yn garpiaw. Rydw i'n adrodd Gweddi'r Arglwydd bob nos ac yn cael digon i'w fuyta - bara, a thatus a chig, a bara llefrith.

James Pickering, 41 Ysgolfeistr, Ysgol Elusennol yr Arglwydd

“Westminster, Helygain. Mae'r plant yn talu 1 swllt yn dâl mynediad, a cheiniog y mis tuag at y tân. Mae rhai'n talu mwy os allant ei fforddio. Mae Lady Westminster yn talu ymweliad ac mae'n cymryd llawer o ddiddordeb yn addysg y plant. £70 y flwyddyn yw fy nghyflog i, a thy di-rent. Mae yma 150 o blant yn dod i'r ysgol hon, ond efallai bydd y bechgyn yn gadael ar ôl dŵy flynedd i weithio yn y pyllau. Gall y mwyafrif ddarllen ac ysgrifennu'n o dda erbyn hynny, ac maent yn parhau i fynychu'r ysgol Sul i gadw'u gwybodaeth. '

George Hughes, Asiant mwyngloddio i Farcwis Westminster

'Rydym yn rhoi hawlenni blymyddol y gellir eu hadnewyddu bob blwyddyn ar y dydd Llun cyntaf ym mis Mai. Ond ychydig iawn o'r hawlenni bach hyn sydd gennym erbyn hyn. Mae'r cwmnïau mawr yn eu llyncu bron i gyd, a rhoddir prydles i iddynt am 21 o flynyddoedd. '

Yn y gweithfeydd llai, mae'r dynion yn dechrau gweithio o'r wyneb. Maent yn gweithio ar i lawr o 5 a 6 llath i 20, 30, 40, llath. Os ydynt yn darganfod unrhyw beth sy'n ei gwneud hi'n werthweil yna ânt i lawr ar ei ôl. Mae Rhosesmor yn eithriad i hyn, am nad ydynt yn gallu dod o hyd i'r mwyn plwm yma heb gloddio i lawr i 80 llath o ddyfnder. '

' Mae'n rheol gennym osod darn 60 llath wrth 30 llath i ddau ddyn. Unwaith cânt yr hawl, gallant ei adnewyddu bob blwyddyn. Ni fyddwn fyth yn ei gymryd oddi wrthynt os ydynt yn dymuno'i weithio. Mae'r ddau ddyn yn gweithio o dan y ddaear nes bydd ganddynt gronfa o fwyn ac yna cânt gymorth i'w



godi i'r wyneb. Mae'r dynion yn trin y mwyn eu hunain a'i baratoi ar gyfer y farchnad.

Y pyllau bychain hyn yw'r rhai gwaethaf am ddiffyg aer, rhai lle mae efallai 4 neu 6 o ddynion yn gweithio ar eu pennau eu hunain. Roedd un digwyddiad yma'r diwrnod o'r blaen; dau ddyn yn gweithio yng ngwaelod siafft lle'r oedd yr aer yn ddrwg iawn fel nad oedden nhw prin yn gallu cael eu gwynt. Roedden nhw wedi clywed byddai'r aer yn gwella petai stof ganddynt yn y siafft. Dyma nhw'n mynd â'r stof i lawr i waelod y siafft, a debyg iawn, ymhen rhyw dri neu bedwar munud syrthiodd y ddau'n anymwybodol ar waelod y pwll.

'Mae'r mwynwyr yn gweithio am 6 awr'. Ceisiodd y Teulu Grosvenor gyflwyno diwrnod 8 awr ond ' Bu streic fawr yn yr ardal ynghylch yr oriau ychwanegol; 6 awr yn unig y gwnânt weithio. Mewn llefydd eraill rydw i'n deall eu bod yn gweithio am 8 awr. Mae'r 6 awr yn cynnwys newid a theithio i lawr ac i fyny'r pwll hefyd.'

Mae gan rai mwynwyr ddarn o dir wrth eu cartrefi. Mae nifer wedi dwyn darnau o'r comin o dro i dro i gadw buwch. Mae'r comin yn gymorth mawr i gadw buwch, maent yn defnyddio'r darn a gymerwyd (erw neu fwy, hwyrach) i gael glaswellt i'r fuwch yn y gaeaf, ac yn nhymhorau braf y flwyddyn maent yn rhoi'r fuwch ar y comin agored ac yn talu dim.


'Rydym yn cau nifer o hen siafftau bob blwyddyn. Ychydig yn ôl roedden ni wedi gorffen cau pob un ohonyn nhw, ond mae'r bechgyn y ffordd yma wrth eu bodd yn taro'r caead i ffwrdd, mae'n hwyl fawr iddyn nhw.'

George Boden, 34 rheolwr Pwll Long Rake, yn ymyl Rhos y Cae

Yn 1841 roedd yn cyflogi 26 o ddynion yn Long Rake, heb ddim guragedd na bechgyn. ' Mae fy ngrweithwyr i yn dlawd, ar y cyfan. Y cyflog ar gyfartaledd yw 12/- yr wythnos. Efallai bod mab neu ddau ymhob teulu sy'n ennill hyd at 7 swllt yr wythnos. Mae'r cyflogau hyn, gyda'r cnwd tatws sydd gan bron bob teulu, a'r hyn allant ei ennill drwy gadw ychydig o ddefaid a mul ar y tir comin yn caniatáu iddynt fyw yn weddol gyfforddus. Ond mae rhai'n dlawd dros ben ac allan o waith.'

Mae llawer o'r mwynwyr yn aelodau cymdeithas ddirwestol ac mae llawer llai o yfed nag a fu hyd yn oed ddwy flynedd yn ôl. Mae dau dafarndy yn y cyffiniau, ond efallai bydd rhaid iddynt gau, ychydig iawn o fusnes sydd ganddyn nhw. Ar ôl gwaith mi welaf i'r mwynwyr yn torri mawr i'r tân, yn casglu tail, plannu neu chwynnu tatws. Ychydig iawn ohonyn nhw sy'n ddiog ac yn fy marn i maent yn bobl gadarn ac o fuchedd dda sy'n gallu dioddef tlodi a chaledu heb fawr o gwyno. Yn sicr maent yn bobl galetach na'r Saeson ac maent yn byw yn fwy cymedrol. Mae'r mwynwyr yn dioddef o anhwylder y frest, rhai mor ifanc â 26 oed. Mae marw o asthma'n gyffredin ac ychydig sy'n byw dros 50 mlwydd oed os ydynt yn dal i weithio yn y pyllau.'

Dywedodd y mwyafrif o'r rhai a ofynnwyd iddynt eu bod yn cael eu trin yn dda a bod yr amodau gweithio'n dda. Dywedasant hefyd nad oeddent yn cael eu gyrru i weithio cyn cyrraedd 15 oed. Mae'n ymddangos, fodd bynnag, efallai nad oedd pobl yn rhydd i fynegi'u barn yn agored yn yr ymchwiliad. Mae gwybodaeth ar gael o leoedd eraill sy'n rhoi'r argraff bod nifer o fechgyn yn gweithio o dan y ddaear o 9 neu 10 mlwydd oed, ac roedd amodau rhai o dai'r mwynwyr yn waeth na hyn.



Cyfnod Allweddol 3

Mynydd Helygain a'r Chwyldro Diwydiannol Cyflwyniad.

Gallwch weld llawer o'r newidiadau a ddaeth yn sgil y Chwyldro Diwydiannol ar Fynydd Helygain. Mae'r unedau canlynol yn ymdrin ag un thema gan olrhain hynt ac effaith y Chwyldro Diwydiannol, yn arbennig yn ystod y cyfnod ar ddiwedd yr 18 ganrif a'r 19 ganrif.

Yn ei lyfr ' The Industrial Revolution in North Wales' dywedodd A.H. Dodd fod Mynydd Helygain wedi profi ' Tyfiant sydyn iawn yn ystod y Chwyldro Diwydiannol'. Ond nid oedd Mynydd Helygain yn eithriad. Digwyddai'r un fath o newidiadau ledled Gogledd Cymru a Phrydain gyfan.

Mwyngloddio a chwarela oedd ffocws y twf diwydiannol ar Fynydd Helygain. Mae'r unedau canlynol yn canolbwyntio ar y cloddio am blwm.

Astudir 4 o themâu'n fanwl.

- Yn gyntaf -Y newidiadau yn y broses o gloddio am blwm – o'r diwydiannau bach y gellir eu holrhain i gyfnod y Rhufeiniaid i'r mwyngloddio ar raddfa fwy ar Fynydd Helygain tan i'r pwll olaf gau yn 1987.
- Yn ail – amodau gweithio'r mwynwyr, fe'u hastudir drwy gyfrwng nifer o ffynonellau diddorol.
- Yn drydydd - archwilio thema Protest, gan gyfeirio'n benodol at y streic chwerw yn 1866-7
- Ac yn olaf - bywyd y bobl a enillodd eu bywoliaeth ar Fynydd Helygain. Mae'r ffynonellau'n cyferbynnu bywyd y tîrffeddiwyr, y rheolwyr pyllau,a'r bobl oedd yn gweithio o dan y ddaear.

Gyda'i gilydd mae'r ffynonellau'n gip diddorol ar ddylanwad grymus y Chwyldro Diwydiannol ar fywydau'r rhai oedd yn byw ar Fynydd Helygain yn ystod cyfnod pwysig o newid.




Caead dros siafft ar siâp cwch gwenyn.



Ymarfer 1

Sut newidiodd cloddio am blwm ar Fynydd Helygain yn ystod y Chwyldro Diwydiannol?

Ffynhonnell A



Ffynhonnell B



Tasgau

- 1 Gan ddefnyddio ffynhonnell A, ceisiwch ddarganfod beth sy'n digwydd yn y llun hwn.
- 2 O ffynhonnell B ceisiwch ddarganfod beth mae bob un o'r bobl yn ei wneud.
- 3 O ba ganrif, yn eich barn chi, mae'r lluniau hyn?

Ffynhonnell C



Virgula Divinatoria.

Dyma rywbeth y clywir llawer o sôn amdano ymhlith mwynwyr a phobl eraill. Os oes rhinwedd o'r fath mewn ffon gyll yna rhaid ei bod yn ardderchog at ddarganfod mwynau. Gwn am rai sy'n siarad gyda ffydd fawr am ei grym, tra bo eraill yn chwerthin a thybio mai cred wag a gwirion ydy hi.

Dyfyniad o'r Miners Dictionary gan William Hooson 1747


Tasg

4. Beth a drafodir yn y ffynhonnell hon?

5. Pa gysylltiadau welwch chi rhwng y ffynhonnell hon a naill ai ffynhonnell A neu B?

Ffynhonnell D

Offer mwyngloddio



Offer mwyngloddio o gatalog gwerthu'r 19 ganrif

Ffynhonnell E



Disgrifiad

- Ho Sbaen
- Darn dur ar gyfer lletemu darnau mawr o graig
- Gordd i guro tyllwyr 10 ac 11
- Rhaw i drin y mwynau
- Morthwyl a ddefnyddid gan y merched yn y mwyngloddiau i dorri mwynau
- (dwy eitem yn y llun) tyllwyr i wneud tyllau mewn tir creigiog cyn llenwi'r twll ar gyfer gosod y powdr ffrwydro
- Rhaw mwynwr – blaen llym, gwnaed o ddur neu haearn
- Caib mwynwr gyda phen dur i yrru'r dur lletemu i mewn i'r garreg
- Rhaw mwynwr o ddur neu haearn gyda blaen sgwâr


Disgrifiad o'r Offer a ddangosir yn Ffynhonnell D

Tasg

6. Gosodwch y disgrifiad o'r offer sydd yn ffynhonnell E gyda llun yr offer sydd yn ffynhonnell D

7. Oes unrhyw dystiolaeth yn Ffynhonnell D ac E sy'n awgrymu'r newidiadau a fu wrth gloddio am blwm rhagor y rhai a ddangosir yn Ffynhonnell A a B.

Ffynhonnell F



Dyma lun o Chwimsi Ceffyl. Byddai'n olygfa gyffredin ar Ffynydd Helygain yn ystod rhan gyntaf y Chwyldro Diwydiannol.

8. Disgrifiwch beth sy'n digwydd yn y llun

9. Allwch chi weld y cysylltiad rhwng y ffynhonnell hon a ffynhonnell arall yn yr ymarfer hwn. Esboniwch eich ateb.




Ffynhonnell F

'Fi fyddai'r olaf un i awgrymu ichi gael injan stêm petai modd peidio, ond mae arnaf i ofn nad oes modd cloddio'r ddaear heb yr un.

Llythyr oddi wrth Peter Jones i'r Arglwydd Grosvenor yn 1817. Mae 'r holl lythyr, bron, yn sôn am broblem y llifogydd

Ffynhonnell G

ELEVATION OF PUMPING ENGINE.



BUILT FOR ST. DAY UNITED MINES.

Injan Bwmpio Cernyw

10.Sut roedd yr Injan Bwmpio Cernyw yn galluogi codi mwy o blwm ar Fynydd Helygain?

11.Esboniwch yn fyr sut roedd yr injan hon yn gweithio.



Ymarfer 2

Cwestiwn allweddol: Pamor anodd oedd bywyd Mwynwyr Helygain ynystody Chwyldro Diwydiannol?


Mae sawl barn wahanol ynghylch amodau gwaith mwynwyr Helygain. Symudodd nifer o deuluoedd i'r ardal i weithio ar ôl cael eu denu gan y gobaith o wneud llawer iawn o arian. 'Rhuthr blwm' oedd disgrifiodd un hanesydd o'r mewnlifiad hwn. Gweithiai mwynwyr Helygain lai o oriau na'r mwynwyr mewn llawer rhan arall o Gymru.

Ffynhonnell A

Yn 1715 darganfuwyd gwythien eithriadol o gyfoethog mewn cae i'r de-ddwyrain o Bentre Helygain oedd yn eiddo i George Wynne, Coedllai. Daeth â mwynwyr o Swydd Derby i'r ardal. Oherwydd y darganfyddiad hwn fe ddechreuodd y 'Rhuthr Plwm' yn yr ardal gan ddenu mwy o fwynwyr o Swydd Derby; buddsoddwyr, rheolwyr, a mwynwyr medrus a labrwyr. Daeth enwau Swydd Derby fel Bagshaw, Ingleby, Harrison, Hooson ac Oldfield yn gyfarwydd iawn yn yr ardal. Rhoddwyd prydlesi i fwyngloddio o fewn tiroedd Eglwys Helygain ac o dan y briffordd, gymaint oedd yr ysfa am elw.

Bu darganfyddiadau mawr eraill yn gymorth i sicrhau enw da i Fynydd Helygain, fel yn Silver Rake yn 1750. Yn 1770 darganfuwyd mwyn cyfoethog ym Mhant y Pwll Dwr a chodwyd mwyn plwm oedd yn werth dros £1,000,000. Mewn mwynglawdd arall ym Mrynffordd yn 1774 gwnaed £100,000 mewn ychydig o flynyddoedd. Darganfyddiad mawr olaf y ganrif oedd yn Great Holway yn 1798 a fu'n dal i gynhyrchu llawer iawn o fwyn hyd 1825.

Disgrifiad o'r Rhuthr am Blwm a addaswyd o ddeunydd a gasglwyd gan Bryn Ellis, hanesydd lleol. (2004)





Ond argraff wahanol a geir o ffynonellau eraill.

Ffynhonnell B

' Mae'r aer yn drwchus ac yn lleidiog, mae'n gwneud iddo goll'i wynt a chwythu, chwysu mewn poen, cur yn ei ben a'i fol. Pan ddaw allan i'r awyr yn y dydd caiff ei boeni gan y bendro a chwydu. '

Ysgrifennwyd gan fwynwr o Swydd Derby, William Hooson a ddaeth i weithio ym mhyllau sir y Fflint, awdur 'Miners Dictionary' 1747.

Mae nifer o ffynonellau sy'n sôn am glefyd y mwynwyr o'r enw'r bellan.

Ffynhonnell C

' Croen pŵl, corff llaith gyda chwys a gwms glas.'

O gofnodion meddyg lleol 1842

Ffynhonnell D

' Mae'r clefydau hyn yn cael effaith poenus mor gynnar â 25 oed, ac yn cynyddu'n raddol hyd 35 oed. Daw marwolaeth yn gymharol fuan oherwydd y clefyd.'

'Croen gwelw fel lludw, llygaid wedi'u suddo yn y pen, a theneuwch mor eithafol nes bod y croen yn edrych fel petai wedi cael ei ludo at esgyrn yr wyneb. Mae'r symptomau hyn yn argoeli darfodedigaeth anwelladwy gronig.'

Mae'r rhai a fu'n gweithio'n hir yn y pyllau yn edrych yn hen cyn eu hamser, maent yn cerdded yn wyrgam, ac mae golwg pryderus ar eu hwynebau. Maent yn denau, yn welw, ac yn lliw afiach, gyda chroen arbennig o lwydaidd ganddynt. Mae'r dynion yn edrych wedi llwyr ymlâdd ac yn fusgrell.

O gofnodion meddyg lleol rhwng 1830 a 1860

Ffynhonnell E

Gwelaf lowyr sy'n hen wŷn, ond fedra i ddim dod o hyd i unrhyw hen fwynwr plwm

(crwner o'r Wyddgrug, Peter Parry 1864)



Rhai o'r peryglon eraill i fwynwyr oedd y damweiniau

Ffynhonnell F

Yn ystod blynyddoedd olaf y diwydiant o leiaf, nid oedd damweiniau angheuol o dan y ddaear yn digwydd mor aml â'r disgwyl. Yn ystod y 40 mlynedd o 1873 ymlaen roedd 22 o farwolaethau yn y pyllau ar Fynydd Helygain. Y rhesymau mwyaf cyffredin oedd cwmp y graig, blastio, syrthio oddi ar ysgolion, neu syrthio i lawr y siafftau. Yn Rhosesmor yn 1860 roedd bachgen ifanc yn dringo'r ysgolion un amser cinio pan syrthiodd 2 lath yn unig o'r wyneb, a bu farw. Digwyddodd y ddamwain waethaf a gofnodwyd mewn pwll lleol, yn 1862 ym mwll Bryn Gwiog, ger Moel y Crio. Torrodd y mwynwyr drwodd i hen weithfeydd oedd o dan y dŵr a lladdwyd 16 ohonynt. Roedd eu hoedran yn amrywio o 14 i 66. Roedd 17 o ddynion yn gweithio yn '120 yard level' pan fyrstiodd llifogydd dŵr drwodd o'r hen weithfeydd oedd ar yr un wythien. Lladdodd y llifogydd 16 o bobl, ond llwyddodd Edward Powell i ddod o hyd i ysgol a thynnu'i hun i fyny ar hyd rhaff ganllaw at ddiogelwch. Gadawodd y ddamwain 10 o weddwon, a 25 o blant. Mewn cyfarfod ar ôl y ddamwain, agorodd Marcwis Westminster gronfa gan gyfrannu £100, rhoddodd cwmni mwynloddio Bryngwiog £200. Erbyn diwedd y cyfarfod casglwyd £700. 1867: lladdwyd pedwar o fwynwyr ym mhwl Deep Level, Helygain pan ddaeth llifogydd dŵr yn dilyn codwm. Enwau'r rhai a laddwyd oedd John Martin, 42 oed, Thomas Evans, 31 oed, George Jones, 35 oed a George Hayes, 21 oed.

Disgrifiad o'r Rhuthr am Blwm a addaswyd o ddeunydd a gasglwyd gan Bryn Ellis, hanesydd lleol. (2004)



Paentiad gan Selwyn Edwards



Ffynhonnell G

1877 Medi 5ed. Pwll Deep Level, Helygain. Thomas Harris, mwynwr 54 mlwydd oed. Syrthiodd leinin carreg y siafft roedd yr ymadawedig a rhai eraill yn gweithio ynddi (anfonodd Dug Westminster £10 i'w weddw).


1886 Medi 13. Pwll Helygain. William Jones, 26 mlwydd oed, gof.

Darganfuwyd ceudwll mawr o dan y ddaear ym Mhwll Helygain a defnyddiodd yr asiant gwch bychan i'w archwilio. Ar ôl iddo fynd, neidiodd y gof, a oedd yn ôl y sôn ddim erioed wedi bod mewn cwch o'r blaen, i mewn i'r cwch o chwilfrydedd yn unig. Pan roedd ychydig o'r lan neidiodd ar ei draed yn y cwch simsan, suddodd y cwch a boddodd y gof. Roedd wedi priodi dair blynedd ynghynt yn Helygain, a gadawodd dair o ferched.

1896: Pwll Dwyrain Helygain. Isaac Stealey, 24 mlwydd oed. Lladdwyd pan darodd ei ben yn erbyn y to wrth iddo gael ei dynnu i fyny ar ei eistedd mewn wagen. Roedd yn teithio fel hyn yn erbyn y rheolau.

1899: Pwll Dwyrain Helygain. Richard Edwards, 50 mlwydd oed, coediwr. Wrth iddo fod wrthi'n trwsio siafft a oedd ar oledd syrthiodd i'r gwaelod am 25 llath. Bu farw ar unwaith.

Pob un yn gofnodion Archwilwyr Mwyngloddiau - o archwiliad a sefydlwyd gan y llywodraeth i archwilio amodau gwaith y mwynwyr.



Paentiad gan Selwyn Edwards



Aseiniadau

Ganddefnyddio'r ffynonellau agwaith arall rydychwedi'i wneud ar y pwnchwn, atebwchy canlynol;

1. Pam oedd pobl yn teithio o bob rhan o Brydain i weithio ym mhyllau plwm Helygain?
2. Disgrifiwch y clefyd a elwir yn 'bellan'?
3. Beth oedd yn achosi'r clefyd yn y mwynwyr plwm?
4. Lluniwch boster diogelwch yn rhybuddio mwynwyr am beryglon y gwaith o dan y ddaear.
5. Pa mor galed oedd bywyd y mwynwyr yn ystod y Chwyldro Diwydiannol?
6. Pa ffynonellau oedd y rhai mwyaf defnyddiol a pham?



Paentiad gan Selwyn Edwards



Ymarfer 3

Streic!

William Lloyd ydy f'enw i. Dwi'n byw yn Brynteg Cottages, Catch, Helygain. Mwynwr plwm ydw i, o leiaf dene be oeddwn i cyn yr hen helynt 'ma. Dyma nghyfle i roi fy ochr i o'r stori. Anghofir fyth mo'r digwyddiadau eleni, 1866, ar Fynydd Helygain.

Rhaid ichi gofio, - dydy gweithio mewn pwll ddim yn waith hawdd. Dwi wedi colli ambell i gyfaill drwy ddamweiniau ac mae llawer o'r mwynwyr yn diodde'n arw o'r bellan. Dene pam rydyn ni'r mwynwyr yn cadw'n glos at ein cytundeb i weithio 6 awr yn unig y dydd. Yn ystod y blynyddoedd diweddar ceisiodd perchnogion y pyllau godi'r oriau hyn i 8 awr y dydd. Ond rydyn ni wastad wedi'u trechu drwy sefyll gyda'n gilydd ac ymladd am ein hawliau.




Mi ddechreuodd yr helynt diweddar 'ma yn 1865 pan brynodd John Taylor yr hawliau i gloddio ym Mhant y Glo (y pwll mwyaf ar Fynydd Helygain). Roedd hyn yn siwr o arwain at helynt, am fod ei dad o'i flaen o wedi gorfodi newidiadau arnon ni ddeugain mlynedd yn ôl.

Petai Taylor yn llwyddo ym Mhant y Go, yna byddai'r holl fwyngloddiau eraill yn dilyn. Rhaid i fwynwyr Helygain amddiffyn eu diwrnod 6 awr. Mae pob dyn yn y pyllau'n teimlo'r un fath. Yn ôl y perchnogion, roedden nhw'n colli pres ac yn methu fforddio cadw'r diwrnod 6 awr. Mi ddywedson ni mai egwyddor oedd hyn, fod cloddio am blwm yn niweidio'r iechyd yn arw a byddai gweithio mwy o oriau'n anniodde-fol.

Nid ni'r mwynwyr achosodd yr helynt. Rydyn ni'n taflu'r bai ar Stad Grosvenor a John Taylor am hynny. Roedd ein protestiadau cyntaf yn rhai heddychlon, ond daeth llu cryf o filwyr a phlismyn gyda'u cleddyfau'n agored i'n cyfarfod ni, rai cannoedd o fwynwyr.

Torrodd rhai bradwyr (blaclegiaid) y streic. Anghofir fyth mo'u henwau ar Fynydd Helygain. I lawr y pyllau mae pawb yn dibynnu ar ei gilydd, ac mae'r un peth yn wir yn ystod streic. Roedd pawb mor ffyrnig yn erbyn y bradwyr nes bod rhaid i nifer fawr o blismyn eu hebrwng i'r gwaith bob dydd.

Dwn i ddim pwy oedd yn gyfrifol am achosi'r difrod yn y pyllau. Yn ôl y sôn, gollyngodd rhywun graig fawr i lawr y siafft gan achosi llawer iawn o ddifrod. Yn ôl





y sôn, mae £100 yn cael ei gynnig yn wobwr am roi gwybodaeth. Does wnelo hyn ddim byd â fi. Protestio'n heddychlon yn unig dwi. Rydyn ni wedi gyrru deiseb i'r llywodraeth ynglŷn â'n hachos. Mae'r Flintshire Observer, y papur lleol, yn ein cefnogi. Mae'r cyhoedd yn cydymdeimlo efo ni hefyd.

Wrth i'r streic fynd yn ei blaen i'r pedwerydd a'r pumed mis, aeth y dynion yn fwy a mwy anobeithiol. Roedd ein teuluoedd bron â llwgu. Clywsom fod John Taylor yn dod â dynion o lefydd eraill yn y wlad i weithio yn y pyllau. Roedd pethau'n siŵr o droi'n dreisgar. Ar Mai 1af 1866, fe es i a channoedd o fwynwyr eraill Helygain i Bant y Go i fyfarfod â'r blaclegs. Aeth pethau'n gas iawn. Cafodd y dyrfa afael ar y blaclegwyr, troi eu siacedi i'r tu chwith allan a gosod darn o bapur ar eu cefnau yn dweud wrth bawb ei bod nhw'n flaclegwyr. Yna fe'u rhwymwyd at ei gilydd a bu rhaid iddyn nhw gerdded drwy Dreffynnon ar eu ffordd i Fostyn. Roedd ar y blaclegwyr ofn trwy'u calonnau ac roedden nhw'n sgrechian am help. Roeddwn ni'n mynd i'w rhoi nhw ar long i Lerpwl gan obeithio na fydden nhw'n dŵad yn eu holau i Helygain. Cyn cyrraedd Mostyn daeth y plismyn a chafodd y dynion eu rhyddhau.

Roedd John Taylor yn ffyrnig oherwydd y digwyddiad hwn a mynnodd ddial ar y dynion. Darbwylodd yr awdurdodau i anfon nifer fawr o Blismyn i Helygain i ddal y rhai roedd o'n tybio oedd yn gyfrifol am ddal a charcharu'r blaclegwyr. Daethant yn gynnar iawn yn y bore gyda gyrdd a thorri drysau'r tai. Cawsom ni ein llusgo o'n gwelyau a'n carcharu mewn cell yn yr Wyddgrug. Mae'n falch gen i ddweud bod fy ngwraig wedi llwyddo brathu darn o law plismon wrth i mi gael fy nghymryd i ffwrdd. Pan ddaethom yn ôl o'r Wyddgrug, ar ôl cael mechniaeth, roedd y mwynwyr eraill yn curo dwylo a gweiddi drosom.

Pan euthum i'r llys yn yr Wyddgrug o'r diwedd ar 11 Mehefin dywedodd rhywun wrthyf fod tair mil o bobl ar hyd y strydoedd yn fy nghefnogi i a'r 13 o fwynwyr plwm eraill a gafodd eu cyhuddo o derfysg. Roeddynt yn gwybod nad oedd hi'n ddiogel i gynnal y prawf yn yr Wyddgrug a gosodwyd dyddiad am brawf llawn yng Nghaer.



Tasg

Beth, yn eich barn chi, ddigwyddodd nesaf?

Dylech ystyried y canlynol...

- Achos yr erlyniad yn erbyn William Lloyd a'r dynion eraill
- Amddiffyniad William Lloyd a'r mwynwyr eraill
- Canlyniad y prawf
- Canlyniad y streic.

Ar ôl gorffenydasghon, gofynnwchi'ch athrobeth yn union a ddigwyddodd i William Lloyd a'r dynion eraill.

Dyma beth ddigwyddodd mewn gwirionedd...

- Dechreuodd yr achos yn erbyn y 14 mwynwr ym mrawdlys y Gwanwyn, Caer ar 5 Ebrill 1867.
- Canolbwyntiodd yr erlyniad ar hawliau'r dynion i fynd i weithio.
- Rhoddodd tystion dystiolaeth yn erbyn William Lloyd a'i gyd-streicwyr gan honni eu bod wedi ymosod arnynt a'u herwgipio.
- Ni cheisiodd yr amddiffyniad wadu'r digwyddiadau, ond honni mai rhan o'r dyrfa yn unig oedd William Lloyd a'r rhai eraill, a heb wneud dim mwy na phobl eraill.
- Ar ôl awr a hanner cafodd y rheithgor 4 dyn yn unig yn euog - roedd William Lloyd yn un o'r 4 hynny.
- Dedfrydwyd William Lloyd i 6 mis o lafur caled.
- Dioddefodd ei deulu'n enbyd oherwydd carcharu William Lloyd. Bu rhaid i'w fab Llywelyn, 12 oed, ymadael ag Ysgol Helygain o ganlyniad uniongyrchol i'r carchariad. Aeth i weithio fel labrwr i ennill cyflog i'r teulu.
- Daeth y streic i ben yn Rhagfyr 1866, deuddeg mis ar ôl iddi ddechrau. Roedd y dynion wedi rhoi i mewn a chytuno i weithio am 8 awr y dydd.



Ymarfer 4

Cwestiynau Allweddol: Sut fath o fywyd gafoddy bobloedd yn bywar Fynydd Helygain yn ystod y Chwyldro Diwydiannol?

- Ar yr adeg honno Prydain oedd y wlad gyfoethocaf ar y ddaear, oherwydd y Chwyldro Diwydiannol. Am gyfnod, roedd y pyllau plwm ar fynydd Helygain yn gwneud elw mawr iawn.
- Ond ni rannwyd y cyfoeth hwn yn gyfartal ac, i lawer o bobl ar Fynydd Helygain, roedd bywyd yn frwydr galed yn erbyn tlodi.

Ynyffyonellau hyn dangosir profiadau gwahanol y bobloedd yn bywar Fynydd Helygain yn ystod y Chwyldro Diwydiannol:

Ffynhonnell A

Yna dechreuodd y teulu Grosvenor gael hawliau eraill i fwynau lleol. Yn 1614 cafodd Richard Grosvenor yr hawl oddi wrth y Goron a roddodd reolaeth iddo dros y mwyngloddiau. Roedd diddymu deddfau'r mwynwyr yn 1623 yn weithred radical, ac achosodd lawer o wrthdaro gyda mwynwyr Helygain, a oedd yn hawlio hawliau hanesyddol i gloddio am blwm. Bu achos llys a'r canlyniad oedd buddugoliaeth i'r teulu Grosvenor. Gan fod y deddfau mwyngloddio wedi'u diddymu roedd y teulu Grosvenor mewn sefyllfa i ddechrau rheoli'r diwydiant mewn ffordd fwy trefnus, ac yn raddol fe gododd y cynnyrch a'r elw hefyd. Eiddo'r teulu Grosvenor yw hawliau mwynau y rhan fwyaf o Fynydd Helygain hyd y dydd heddiw.

Ysgrifennwyd gan Chris Ebbs, hanesydd mwyngloddio

Ffynhonnell B

Ystâd enfawr y Teulu Grosvenor yn Llundain oedd prif ffynhonnell cyfoeth y Dug, debyg iawn.

O Fywgraffiad o'r 19eg ganrif.

Ffynhonnell C

Fe'i derbyniwyd ymhobman gyda llawenydd a hoffter mawr. Yn Helygain roedd y mwynwyr, a rhai eraill oedd yn cael eu cyflogi gan Iarll Grosvenor, wedi'u gwisgo yn eu dillad gorau ac roedd hyd at saith gant ohonynt yn eu cymeradwyo ac yn bloeddio cyfarch wrth iddo fynd heibio.

'Royal visits and Progresses to Wales (Edward Parry, 1850) Disgrifiad o ymweliad y Tywysog Leopold (brenin Gwlad Belg wedyn) i Helygain yn 1819



Ffynhonnell D

Teisen y briodasferch oedd canolbwynt y bwrdd a osodwyd yn hardd. Roedd y deisen yn 4 troedfedd o uchder, ac yn pwysu bron gan pwys. Roedd yn sefyll ar stondin arian. Roedd iddi dair haen, ac ar ei brig roedd fas o'r blodau gorau. Ar yr haen gyn-taf roedd torch o lili a rhedyn, ar yr ail haen roedd colomennod a nythod a thyrch o flodau, ar o'r drydedd haen roedd plethdorchau o flodau a ciwpid yn gorwedd yn eu canol. Ar waelod pob haen roedd torch o redyn ac roedd y cyfan yn waith addurnedig oedd yn deilwng o gwmni Bolland and Sons.

Disgrifiad adroddiad papur newydd lleol o briodas pobl gyfoethog yn eglwys Helygain, Gorffennaf 1884. roedd y briodasferch a'r priodfab o deuluoedd cyfoethog yn Helygain a wnaeth eu pres o'r diwydiant cloddio am plwm.

Ffynhonnell E

'Mewn rhai bythynnod mwynwyr mae yna un ystafell sydd tua 9 i 12 troedfedd yn sgwâr. Mae ychwanegiadau ar rai bythynnod eraill, ar oled, lle i gysgu ar wahân yw hwn. Yn gyffredinol, nid oes dodrefn ynddynt, gwnaed y to o blethwaith neu wellt ac maent yn dyllau i gyd ac yn agored i'r awyr.'

Ymholiad y llywodraeth i ddiwydiant mwyngloddio Helygain 1846

Ffynhonnell F

'Roedd y carthbyllau'n rhy agos at y tai ac roedd heintiau teiffws a'r dwymyn goch yn digwydd fyth a beunydd.'

Adroddiad Seneddol 1864

Ffynhonnell G

Peth cyffredin ledled Ewrop oedd cynnig llety i'r mwynwyr nad oeddynt yn byw yn lleol. Mae un baracs yn dal ar Fynydd Helygain, yn ymyl Pwll Pant-y-go rhwng Rhosesmor a Helygain. Byddai'r mwynwyr yn aros yn y baracs yn ystod yr wythnos, gan dalu 3 ceiniog yn 1888, ac yn mynd adre dros y Sul.


O ymchwil Bryn Ellis, hanesydd lleol



Ffynhonnell H

Fyddai i ddim yn mynd i'r capel yn rheolaidd am fod fy nillad yn rhai gwael ac mae cywilydd arna i fynd. Mae ar Mam angen fy nghyflog i gyd i dalu am fwyd imi, ond ni rodda hi ddillad imi pan fydd eu hangen arna i. Mae Mam yn mynd i'r capel yn rheolaidd ond yn dweud bod rhaid imi aros gartref am fod fy nillad yn garpiau. Rydw i'n adrodd Gweddi'r Arglwydd bob nos ac yn cael digon i'w fwyta - bara, a thatws a chig, a bara llefrith.


John Evans, 10 oed. Pwll Plwm Hendre o'r dystiolaeth a roddodd i Gomisiwn Kinnaird yn 1841



Ffynhonnell I

Mae'r plant yn talu 1 swllt yn dâl mynediad, a cheiniog y mis tuag at y tân. Mae rhai'n talu mwy os allant ei fforddio. Mae Lady Westminster yn talu ymweliad ac mae'n cymryd llawer o ddiddordeb yn addysg y plant. £70 y flwyddyn yw fy nghyflog i, a thy di-rent. Mae yma 150 o blant yn dod i'r ysgol hon, ond efallai bydd y bechgyn yn gadael ar ôl dwy flynedd i weithio yn y pyllau. Gall y mwyafrif ddarllen ac ysgrifennu'n o dda erbyn hynny, ac maent yn parhau i fynychu'r ysgol Sul i gadw'u gwybodaeth.'

James Pickering, 41 Ysgolfeistr, Ysgol Elusennol Arglwydd Westminster, Helygain a roddodd dystiolaeth gerbron Comisiwn Kinnaird yn 1841



Ffynhonnell J

Mae fy ngweithwyr i yn dlawd, ar y cyfan. Y cyflog ar gyfartaledd yw 12/- yr wythnos. Mae'r cyflog hwn, gyda'r cnwd tatws sydd gan bron bob teulu, a'r hyn allant ei ennill drwy gadw ychydig o ddefaid a mul ar y tir comin yn caniatáu iddynt fyw yn weddol gyfforddus. Ond mae rhai'n dlawd dros ben ac allan o waith. Mae llawer o'r mwynwyr yn aelodau cymdeithas ddirwestol ac mae llawer llai o yfed nag a fu hyd yn oed ddwy flynedd yn ôl. Mae dau dafarndy yn y cyffiniau, ond efallai bydd rhaid iddynt gau, ychydig iawn o fusnes sydd

George Boden, 34, Rheolwr Pwll Long Rake yn ymyl Rhos y Cae, yn rhoi tystiolaeth i'r Comisiwn Kinnaird yn 1841



Ffynhonnell K

"Mae'r Arglwydd Grosvenor yn codi tŷ drudfawr ar ben bryn moel ac unig gyda mwyngloddiau plwm a thai'r gweithwyr o'i amgylch. Yn ei ymyl mae yna eglwys ddiflas a mynwent, a rhyw hanner afon a hanner môr llwm yn ymestyn o'i flaen gyda Parkgate a Hoylake yn olygfeydd iddo. Trueni mynd i'r holl gostau ar le na fydd neb yn ystyried treulio unrhyw amser ynddo, ond am ryw ddiwrnod neu ddau ar gyfer rasys Treffynnon. Pan fydd wedi'i orffen bydd yr Arglwydd Grosvenor yn hidio dim amdano o gwbl".

Barn Lady Elizabeth, merch yng nghyfraith yr Arglwydd Grosvenor, o lyfr o'r enw ' Lady Elizabeth and the Grosveners'



Ffynhonnell L

Roedd perchnogion y pyllau yn cyflogi asiantwyr i oruchwylio eu buddsoddiadau. Efallai y byddai'r asiantwyr yn rheoli'r pyllau eu hunain yn uniongyrchol (ac yn yr achos yma efallai y byddent yn cael eu cofnodi'n asiant a rheolwr, neu hyd yn oed ysgrifennydd y cwmni), ond yn y pyllau mwyafrif, byddai rheolwr pyllau'n cael ei gyflogi i drefnu rhedeg y pwll o ddydd i ddydd.

Roedd statws uchel gan yr asiantwyr mwyngloddiau o fewn y gymdeithas, a hwy oedd yn gyfrifol am llwyddiant neu am fethiant y pwll neu nifer o byllau. Dynion profiadol a chanddynt afael gadarn ar y dulliau cloddio, y dechnoleg ddiweddaraf, cyl-lideb a buddsoddi oedd yr asiantwyr hyn. O'r herwydd rhoddwyd llawer o barch iddynt yn y gymdeithas ac roedd y mwynwyr eu hunain yn eu parchu'n arbennig.

Disgrifiad o swyddogaeth Rheolwyr Y Pyllau gan hanesydd lleol, Bryn Ellis, 2004



Tasgau

1. Copïwch tabl amlinellwyd (ar undudalen o'ch llyfrymarferion). Nodwch y ffynonellau sy'n cyfateb i'r dosbarth cymdeithasol.

Dosbarth Cymdeithasol	Ffynhonnell	Rheswm
Dosbarth Uchaf		
Dosbarth canol neu fasnachol		
Dosbarth gweithio neu labro		



Pwyntiau dysgu: Roedd rhai aelodau o'r Teulu Grosvenor yn defnyddio'r enw Westminster hefyd.

2. O dan y penawdau canlynol, gwnewch restr o'r hyn mae'r ffynonellau'n dweud wrthym am y Teulu Grosvenor.

- Tarddiad eu cyfoeth
- Tystiolaeth am eu cyfoeth
- Barn y bobl eraill oedd yn byw ar Fynydd Helygain amdanynt

3. Gan ddefnyddio ffynonellau A,B,C, I a K ceisiwch ddarganfod 2 ffaith a 2 farn am y teulu Grosvenor

4. Rhewch chwech o enghreifftiau eraill o dlodi o'r ffynonellau

5. Sut fath o fywyd oedd gan y bobl oedd yn byw ar Fynydd Helygain yn ystod y Chwyldro Diwydiannol?

Defnyddiwch y tabl yn Cwestiwn 1 i gynllunio'r darn o ysgrifen.

Cofiwch gynnwys:

Cyflwyniad – Roedd bywyd pobl...

Yr ail baragraff – Roedd y Dosbarth uchaf...

Y trydydd paragraff – Roedd y dosbarth canol...

Y pedwerydd baragraff – Roedd y dosbarth gweithio....

Casgliad.

Blwch Geiriau

(Geiriau ichi eu defnyddio yn eich darn ysgrifennu)

tlodi	cyfoeth
buddsoddiadau	clefyd
elw	cymharu